# Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Mrs Annwen Morgan
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| **RHYBUDD O GYFARFOD** | **NOTICE OF MEETING** |
|---|---|
| **PWYLLGOR CYNLLUNIO A GORCHMYNION** | **PLANNING AND ORDERS COMMITTEE** |
| **DYDD MERCHER, 7 EBRILL 2021 am 1:00 y. p.** | **WEDNESDAY, 7 APRIL, 201 at 1:00 p.m.** |
| **CYFARFOD RHITHIOL** | **VIRTUAL MEETING** |

| **Swyddog Pwyllgor** | **Ann Holmes<br>01248 752518** | **Committee Officer** |
|---|---|---|

**AELODAU / MEMBERS**

Cynghorwyr / Councillors:

**John Griffith**
**Glyn Haynes**
**T Ll Hughes MBE**
**K P Hughes**
**Vaughan Hughes**
**Richard O Jones (Is-Gadeirydd/Vice-Chair)**
**Eric W Jones**
**Dafydd Roberts**
**Nicola Roberts (Cadeirydd/Chair)**
**Ieuan Williams**
**Robin Williams**

Ar hyn o bryd, nid yw’r Pwyllgor hwn yn cael ei we-ddarlledu’n fyw. Bydd recordiad o’r cyfarfod ar wefan y Cyngor cyn gynted â phosibl.

# R h a g l e n

Adroddir ar lafar i’r Pwyllgor unrhyw wybodaeth ychwanegol a ddaw i law yn dilyn cyhoeddi adroddiadau.

Efallai y gwneir mân newidiadau i rybudd o benderfyniad mewn achosion o gamgymeriadau argraffu adroddiadau i’r Pwyllgor cyn rhyddhau rhybudd o benderfyniad i ganiatau neu i wrthod cais.

**AELODAU’R PWYLLGOR**

**Cynghorwyr:-**

**John Griffith**
**Glyn Haynes**
**T Ll Hughes MBE**
**K P Hughes**
**Vaughan Hughes**
**Richard O Jones (Is-Gadeirydd/Vice-Chair)**
**Eric W Jones**
**Dafydd Roberts**
**Nicola Roberts (Cadeirydd/Chair)**
**Ieuan Williams**
**Robin Williams**

**MYNEGAI – mae’r linc i’r Rhestr Gyhoeddus i’w weld o dan pob cais unigol**

## 1 YMDDIHEURIADAU

## 2 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem of fusnes.

## 3 COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL_(Tudalennau 1 - 10)

Cyflwyno cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a gynhaliwyd ar 3 Mawrth, 2021.

## 4 YMWELIADAU SAFLE_(Tudalennau 11 - 12)

Cyflwyno cofnodion yr ymwelidau safle rhithiol a gynhaliwyd ar 17 Mawrth, 2021.

## 5 SIARAD CYHOEDDUS

## 6 CEISIADAU FYDD YN CAEL EU GOHIRIO

Dim i’w hystyried gan y cyfarfod hwn.

Ar hyn o bryd, nid yw'r Pwyllgor hwn yn cael ei we-ddarlledu'n fyw. Bydd recordiad o'r cyfarfod ar wefan y Cyngor cyn gynted â phosibl.

**7 CEISIADAU'N CODI**_(Tudalennau 13 - 38)

7.1 FPL/2021/7 – Prysan Fawr, Bodedern

https://ioacc.force.com/s/papplication/a1G4H00000NCZRtUAP/fpl20217?language=cy

7.2 FPL/2020/164 – Bwthyn Lleiniog, Penmon, Biwmares

https://ioacc.force.com/s/papplication/a1G4H00000MiUpVUAV/fpl2020164?language=cy

7.3 FPL/2020/247 – Stad Y Bryn, Llanfaethlu

https://ioacc.force.com/s/papplication/a1G4H00000NB0iuUAD/fpl2020247?language=cy

**8 CEISIADAU ECONOMAIDD**

Dim i'w hystyried gan y cyfarfod hwn.

**9 CEISIADAU AM DY FFORDDIADWY**

Dim i'w hystyried gan y cyfarfod hwn.

**10 CEISIADAU'N GWYRO**_(Tudalennau 39 - 54)

10.1 VAR/2020/57 Ty Newydd Bach, Llanfaelog

https://ioacc.force.com/s/papplication/a1G4H00000MinhDUAR/var202057?language=cy

10.2 VAR/2021/8 – Bryn Felin, Niwbwrch

https://ioacc.force.com/s/papplication/a1G4H00000NCdyCUAT/var20218?language=en_GB

10.3 VAR/2021/11 – Ty Uchaf, Llangristiolus

https://ioacc.force.com/s/papplication/a1G4H00000NCgoXUAT/var202111?language=cy

**11 CYNIGION DATBLYGU GAN GYNGHORWYR A SWYDDOGION**_(Tudalennau 55 - 58)

11.1 HHP/2021/12 – Llain Farged, Ffordd Eleth, Moelfre

https://ioacc.force.com/s/papplication/a1G4H00000NCX1UUAX/hhp202112?language=cy

Ar hyn o bryd, nid yw'r Pwyllgor hwn yn cael ei we-ddarlledu'n fyw. Bydd recordiad o'r cyfarfod ar wefan y Cyngor cyn gynted â phosibl.

**12 GWEDDILL Y CEISIADAU_**(Tudalennau 59 - 80)

12.1 FPL/2021/10 – Bron Castell, Llanfairynghornwy

https://ioacc.force.com/s/papplication/a1G4H00000MgwKXUAZ/fpl202110?language=cy

12.2 MAO/2021/1 – Coleg Menai, Llangefni

https://ioacc.force.com/s/papplication/a1G4H00000NCQzeUAH/mao20211?language=cy

12.3 MAH/2021/2 – 15 Coedwig Terrace, Penmon

https://ioacc.force.com/s/papplication/a1G4H00000NColfUAD/mah20212?language=cy

12.4 FPL/2020/191 – Rallt Gwta, Niwbwrch

https://ioacc.force.com/s/papplication/a1G4H00000Mj6qgUAB/fpl2020191?language=cy

**13 MATERION ERAILL**

Dim i'w hystyried gan y cyfarfod hwn.

# Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion

## Cofnodion y cyfarfod rhithwir a gynhaliwyd ar 3 Mawrth 2021

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Nicola Roberts (Cadeirydd)<br>Cynghorydd Richard O Jones (Isgadeirydd)<br><br>Cynghorwyr John Griffith, Glyn Haynes, T Ll Hughes MBE, K P Hughes, Vaughan Hughes, Eric Wyn Jones, Dafydd Roberts a Robin Williams.<br><br>Y Cynghorydd Richard A Dew – Deilydd Portffolio – Cynllunio. |
| **WRTH LAW:** | Rheolwr Rheoli Datblygu (NJ)<br>Swyddog Cynllunio (GJ),<br>Prif Beiriannydd (Rheoli Datblygu Priffyrdd)(EJ),<br>Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol (RJ),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Dim |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Aelodau Lleol: Cynghorwyr Dafydd R Thomas (cais 7.1); Margaret M Roberts and Ieuan Williams (cais 7.2); R Meirion Jones (cais 7.3); Llinos M Huws (cais 11.1); Alun Roberts (cais 12.3).<br><br>Cynghorwyr Bryan Owen a Bob Parry OBE FRAgS. |

---

**1 YMDDIHEURIADAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriad.

**2 DATGAN DIDDORDEB**

Bu i'r Cynghorydd John Griffith ddatgan diddordeb personol yng nghais 6.1 a chais 11.1.

**3 COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod rhithwir blaenorol y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a gynhaliwyd ar 10 Chwefror 2021 yn amodol ar y gwelliant ar dudalen 5 – cais 7.2 – cyfeiriodd y Cynghorydd K P Hughes ....... Mabwysiadwyd y

Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd gan y Cyngor hwn ac ni fydd cyfleoedd i adolygu'r cynllun yn bosibl am nifer o flynyddoedd …':-

- I ddileu'r *geiriad '......... nifer o flynyddoedd'*
- I *gynnwys '..... cyn belled â gwneud newidiadau i'r cynllun nid ydym wedi cyrraedd y cam i wneud hynny'.*

**4 YMWELIADAU Â SAFLEOEDD**

Ni chafodd yr un ohonynt eu hystyried gan y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.

**5 SIARAD CYHOEDDUS**

Roedd siaradwyr cyhoeddus mewn perthynas â cheisiadau 7.1 a 12.3.

**6 CEISIADAU A FYDD YN CAEL EU GOHIRIO**

**6.1 FPL/2020/247 – Cais llawn ar gyfer codi 9 annedd ynghyd â gwaith cysylltiedig ar dir ger Ystâd Y Bryn, Llanfaethlu**

Cyflwynwyd y cais i'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion ar gais aelod lleol.

*Ar ôl datgan diddordeb personol yn y cais hwn ni chymerodd y Cynghorydd* John Griffith *ran yn y drafodaeth na phleidleisio maes o law.*

Adroddodd y Rheolwr Rheoli Datblygu ar leoliad a natur y cais, argymhellwyd ymweld â safle'r cais.

**PENDERFYNWYD ymweld â'r safle yn unol â'r argymhelliad yn adroddiad y Swyddog.**

**7 CEISIADAU'N CODI**

**7.1 FPL/2020/195 – Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu gan gynnwys ardal wedi'i decio, gwaith cysylltiedig a mesurau lliniaru yng Nghaffi Sea Shanty, Lôn St. Ffraid, Bae Trearddur**

Cyflwynwyd y cais i'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion gan fod y cais yn cynnwys tir sy'n eiddo i'r Cyngor.

*Siaradwr Cyhoeddus*

Dywedodd Mr Philip Brown (ymgeisydd) mai'r elfen sydd ychydig yn ddadleuol ynglŷn â'r cynnig yw'r cais i ymestyn yr ardal awyr agored dri medr i'r gorllewin. Nododd y byddai'n canolbwyntio ar hynny a gobeithio y byddai'n rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor:-

1. Bod yr ardal wedi'i decio sy'n cael ei hymestyn yn gymedrol ac yn rhesymegol, mae'n fater o gwblhau yn hytrach nag ymestyn. Mae'n golygu

ein bod yn adfer rhywfaint (ond nid y cyfan o bell ffordd ) o'r capasiti rydym wedi'i golli drwy osod byrddau'n bellach oddi wrth ei gilydd.

2. Mae'r rhan a ddefnyddir o'r twyni tywod mor fach fel ei fod yn dechnegol yn hytrach na ffisegol. Dim ond 2.8 metr ciwbig o dywod pridd y bydd angen ei dynnu â llaw a bydd yn cael ei adleoli ar ochr y twyni sydd wedi erydu.
3. Mae'r gwaith adeiladu'n cael ei wneud yn gyfan gwbl o bren heb ei beintio. Ni ddefnyddir unrhyw goncrit na cherrig o unrhyw fath fel y bydd modd newid y cynllun i'r cyflwr gwreiddiol unrhyw bryd heb unrhyw effaith.
4. Bydd modd gosod pum bwrdd newydd ar gyfer pedwar, ac un bwrdd newydd ar gyfer chwech yn yr ardal newydd. Ychwanegiad cymedrol ond defnyddiol iawn i'r cyfleusterau a gynigiwn a lle newydd pleserus a chysgodol i'n cwsmeriaid eistedd yn ddiogel.
5. Bydd y cynllun yn defnyddio stribed 3m o dir blêr nad yw'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd. Bydd yn troi llwybr mynediad bengaead at wasanaeth yn ardal awyr agored daclus a chwaethus sy'n gweddu i'w hamgylchedd. Mae ein hadeilad presennol yn dangos ein harbenigedd yn hyn o beth.
6. Yn olaf, rwy'n awyddus i'ch sicrhau NAD 'troed yn y drws' yw hwn. Ni fyddwn yn dod ar eich gofyn ymhen ychydig flynyddoedd yn chwilio am 3m arall. Byddai gwneud hynny'n amhriodol ym mhob agwedd. Nid oes neb yn deall hyn yn fwy na mi.

Nid oes rhaid i ni ddweud wrthych ba mor arw y mae ein diwydiant a'n gwlad wedi cael eu heffeithio gan Covid. Ers mis Mawrth y llynedd, bu'r Sea Shanty yn masnachu am saith wythnos yn unig. Rydym wedi benthyca'n helaeth i gadw i fynd a bydd yn rhaid inni barhau i gau am lawer hirach na'r disgwyl yn wreiddiol. Nid oes yr un o'n 71 aelod o staff wedi cael eu diswyddo a gyda'ch cymorth chi, ni fydd hynny'n digwydd. Bydd y cynigion hyn yn ein helpu i ad-dalu benthyciadau, cadw swyddi, dyma ein ffordd fach ni o helpu i ailadeiladu'r economi leol ac ail-lenwi'r coffrau cyhoeddus gwag. Mae'r cynllun o fudd i bawb ac am y rhesymau hyn, gofynnwn am eich cymeradwyaeth ar gyfer y cynllun datblygu economaidd mwyaf rhesymegol a chymedrol hwn, a chredwn ein bod yn haeddu sêl bendith.

Adroddodd y Rheolwr Rheoli Datblygu fod a wnelo'r cais ag estyniad i'r caffi a darparu ardal deciau a fydd yn ymestyn i dwyni tywod gerllaw. Bydd y cais yn darparu lle eistedd ychwanegol y tu allan i fodloni mesurau cadw pellter cymdeithasol oherwydd y pandemig presennol er mwyn cadw'r busnes a lliniaru refeniw a gollir. Dywedodd fod yr ardal o fewn ardal perygl llifogydd C2 ac o ran profion polisi TAN 15, nid yw'r datblygiad yn cydymffurfio â'r holl feini prawf gofynnol. Mae nifer o wrthwynebiadau lleol i'r cais o ran colli twyni tywod ynghyd â phryderon ynghylch peryglon llifogydd. Nododd fod llythyrau cymorth pellach wedi dod i law yn cefnogi'r cais. Adroddodd y Rheolwr Rheoli Datblygu ymhellach fod y cais wedi'i ohirio yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor hwn ar sail ecolegol, materion lliniaru a'r effaith bosibl ar fadfallod. Bydd y cais yn golygu y collir rhai o'r twyni tywod. Nododd fod trafodaethau wedi'u cynnal gyda'r datblygwr ynglŷn â'r datblygiad a bod mesurau lliniaru llawn a chynllun ecolegol wedi dod i law a'u bod yn dderbyniol i'r ymgyngoreion statudol. Mae dyletswydd statudol i ddiogelu a gwella bioamrywiaeth leol ac mae trafodaethau

wedi'u cynnal i fodloni'r ystyriaethau ecolegol hyn. Mae atodiad wedi'i ddiweddaru i'r adroddiad ecolegol yn cynnwys mesurau monitro a gwella mewn perthynas â’r twyni tywod wrth ymyl y datblygiad sydd hefyd wedi'u cynnwys yn ardal llinell goch safle’r cais sy'n cynnwys symud tywod a thyfiant o fewn yr ardal deciau i wella'r amgylchedd. Mae bwriad i godi ffens i reoli mynediad cyhoeddus i'r twyni gan fod llwybrau ar hyn o bryd drwy'r twyni sy'n niweidio'r cynefin. Rhoddodd y Rheolwr Rheoli Datblygu yr wybodaeth ddiweddaraf am adroddiad y Swyddog bod cadarnhad wedi dod i law mai'r ymgeisydd yw perchennog yr eiddo cyfagos ac felly ni fydd angen amod 3 yn yr adroddiad. Gan nad oes gwrthwynebiad gan Cyfoeth Naturiol Cymru o ran peryglon llifogydd a mater ecolegol, yr argymhelliad yw cymeradwyo'r cais. Fodd bynnag, nid yw'r ymgynghoriad statudol ynglŷn â'r dystysgrif berchnogaeth ddiwygiedig, Asesiad Canlyniadau Llifogydd atodol a Datganiad Iaith Gymraeg yn dod i ben tan 11 Mawrth, 2021 a gofynnodd i'r Swyddogion gael pŵer i weithredu yn dilyn y cyfnod ymgynghori statudol.

Dywedodd y Cynghorydd Dafydd R Thomas, aelod lleol fod gan Gyngor Cymuned Trearddur bryderon a'u bod yn gwrthwynebu'r cais. Nododd fod yr ymgyngoreion statudol yn cefnogi'r cais ac na fydd unrhyw ddifrod amgylcheddol i'r twyni a chynefin y madfallod. Mae llifogydd yn bryder yn ardal Bae Trearddur a threfnwyd cyfarfod rhwng Cyngor Cymuned Trearddur a'r Cyngor Sir a'r gobaith yw y gellir trefnu cyfarfod gyda Cyfoeth Naturiol Cymru yn y dyfodol. Mae problemau traffig yn peri pryder yn yr ardal pan fo nwyddau’n cael eu danfon i siopau cyfagos a'r caffi. Dywedodd y Cynghorydd Thomas fod angen gwella'r Gymraeg yn y caffi o ran y bwydlenni, yr arwyddion a'u gwefan. Nododd ei fod yn cefnogi'r cais.

Dywedodd y Cynghorydd John Griffith fod yr adroddiad yn nodi bod gan y Swyddog Ecolegol ac Amgylcheddol bryderon ynghylch colli twyni tywod a'r effaith bosibl ar fadfallod. Holodd hefyd p’un ai a yw Cyfoeth Naturiol Cymru yn cefnogi'r cais. Mewn ymateb, dywedodd y Rheolwr Rheoli Datblygu nad yw Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Adran Ddraenio wedi cyflwyno unrhyw wrthwynebiad gan mai dim ond rhan fach o dwyni tywod a gaiff ei symud ac na fydd hynny’n cael effaith andwyol ar lifogydd. Dywedodd fod trafodaethau wedi'u cynnal gyda'r datblygwr a'r Swyddog Ecolegol ac Amgylcheddol o ran mesurau lliniaru a bod y rhain yn dderbyniol. Gan fod rhan o'r twyni tywod ym mherchnogaeth yr awdurdod lleol bydd angen i'r datblygwr brydlesu'r tir hwnnw.

Mynegodd y Cynghorydd T Ll Hughes MBE ac aelod lleol fod pryderon lleol ynglŷn â'r datblygiad a nododd fod Cyngor Cymuned Trearddur yn gwrthwynebu’r cais. Dywedodd fod problemau parcio ceir yn yr ardal a phryderon ynglŷn â materion llifogydd.

Cynigiodd y Cynghorydd K P Hughes y dylid cymeradwyo'r cais ac eilodd y Cynghorydd R O Jones y cynnig.

**PENDERFYNWYD caniatau'r cais ac ar ôl i’r ymgynghoriad statudol ddod i ben, rhoi pŵer i'r Swyddog weithredu ar y dystysgrif berchnogaeth ddiwygiedig, Asesiad Canlyniadau Llifogydd atodol a Datganiad Iaith Gymraeg**

**7.2 FPL/2019/217 – Cais llawn ar gyfer codi 17 o anheddau fforddiadwy, adeiladu dwy fynedfa newydd ar gyfer cerbydau a 3 mynedfa amaethyddol newydd, gosod gorsaf bwmpio ynghyd â gwaith tirweddu meddal a chaled ar dir gerllaw Ystâd Craig y Don a Cherry Tree Close, Benllech**

Cyflwynwyd y cais i'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion ar gais dau Aelod Lleol. Yn y cyfarfod ar 13 Ionawr, 2021 penderfynodd y Pwyllgor ymweld â'r safle. Yna cynhaliwyd ymweliad rhithiwr â'r safle ar 20 Ionawr 2021. Yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Chwefror, 2021 penderfynodd y Pwyllgor wrthod y cais yn groes i argymhelliad y Swyddog.

Dywedodd y Cynghorydd Ieuan Williams, aelod lleol ei bod yn bwysig nodi bod dogfen 'Dyfodol Cymru' wedi'i chyhoeddi ers y cyfarfod diwethaf a chyfeiriodd at baragraff yn y ddogfen sy'n nodi '.. *Wynebwn argyfwng hinsawdd sy'n trawsnewid ein hamgylchedd ac yn cael effaith uniongyrchol ar gymunedau; rydym mewn argyfwng ecolegol, lle mae'r penderfyniadau y mae pobl yn eu gwneud, a'r ffordd y maent yn ymddwyn, yn niweidio cadernid ecosystemau a rhywogaethau; rydym wedi dioddef effeithiau pandemig iechyd byd-eang a rhaid inni ailfywiogi'r economi mewn ffordd gynaliadwy.'* Dywedodd hefyd fod y Cyngor Sir wedi mabwysiadu Cynllun Bioamrywiaeth ym mis Ionawr 2021 sy'n golygu bod yn rhaid i'r awdurdod lleol weithredu o fewn Deddf Amgylcheddol 2016 (Adran 6) a rhaid i'r Awdurdod ystyried yr effeithiau ar yr amgylchedd naturiol. Dywedodd y Cynghorydd Williams ymhellach ei fod yn credu bod gohebiaeth wedi dod i law gan y datblygwr sy'n nodi nad oes unrhyw safleoedd addas eraill yn Benllech ar gyfer datblygiad o'r fath. Nododd fod 11 o safleoedd posibl yn ardal Benllech yn y Cynllun Datblygu Lleol. Parth natur yw'r cais hwn ac mae safleoedd mwy priodol yn Benllech ar gyfer datblygiad o'r fath. Ni fyddai'n ofynnol cael gorsaf bwmpio pe bai'r safle posibl arall wedi'i ddewis i'w ddatblygu.

Ailadroddodd y Cynghorydd Margaret Roberts, aelod lleol ei bod yn gefnogol i dai fforddiadwy ond nid yw'r safle hwn yn addas oherwydd natur y safle a bod dyletswydd ar yr Awdurdod i ddiogelu gwlyptiroedd/tir cors sy'n hanfodol ar gyfer cynefin bywyd gwyllt.

Cyfeiriodd y Cynghorydd John Griffith at adroddiad y Swyddog a gohebiaeth gan yr ymgeisydd y bydd tir y cais yn dirywio ymhellach a holodd a oedd yn bosibl cymryd y tir drosodd i ddiogelu'r gors wlyb. Mewn ymateb, dywedodd y Cynghorydd Ieuan Williams fod y Cynllun Bioamrywiaeth yn gosod dyletswydd ar yr Awdurdod i ddiogelu'r cynefinoedd hyn.

Adroddodd y Rheolwr Rheoli Datblygu fod y cais ar gyfer 17 uned gymysg o dai fforddiadwy ar ran o safle dynodedig lleol mewn ardal AHNE. Mae'r safle wedi'i ddynodi'n lleol fel dynodiad bywyd gwyllt ac yn y cyfarfod diwethaf cyfeiriwyd at ohebiaeth fod y tir wedi'i esgeuluso dros y blynyddoedd oherwydd diffyg rheolaeth. Byddai safle'r datblygiad yn mynd â 13.5% o'r safle dynodedig sy'n cael ei ystyried fel y tir salaf. Byddai angen cynllun rheoli i sicrhau dyfodol y safle sy'n weddill. Dywedodd ymhellach, tra bod y tir yn parhau i ddirywio, nad oes gan yr awdurdod cynllunio yr awdurdod i fynnu ei fod yn cael ei reoli'n

briodol. Mae'r cais wedi'i gyflwyno fel safle eithriedig ar gyfer tai fforddiadwy ac mae wedi'i asesu a'i ganfod yn dderbyniol yn unol â pholisïau tai. Wrth ddatblygu'r cais nodwyd nifer o safleoedd ond ni chynigiwyd eu mabwysiadu na'u cynnig i gael eu cynnwys yn y CDLl ar y Cyd. Mae angen tai fforddiadwy yn yr ardal ac nid oes unrhyw safleoedd eraill sy'n cydymffurfio â pholisïau a'r argymhelliad yw caniatáu'r cais.

Holodd y Cynghorydd Dafydd Roberts a yw'r Cynllun Bioamrywiaeth yn ystyriaeth gynllunio wrth asesu ceisiadau cynllunio. Mewn ymateb, dywedodd y Rheolwr Rheoli Datblygu fod y Cynllun Bioamrywiaeth yn cael ei ystyried yn Rhan 6 o Ddeddf yr Amgylchedd 2016 wrth ystyried ceisiadau. Dywedodd y Cynghorydd Roberts ymhellach y byddai rhan o safle bywyd gwyllt yn cael ei cholli fel rhan o'r cais hwn. Er yr adroddwyd y byddai'r cynllun rheoli yn diogelu gweddill y tir, cwestiynodd pa sicrwydd y gellir ei roi i sicrhau y caiff y tir ei gynnal a'i gadw ac i sicrhau bioamrywiaeth a diogelu'r bywyd gwyllt ar y safle ac a fydd adroddiad blynyddol yn cael ei baratoi ar reoli'r tir. Mewn ymateb, dywedodd y Rheolwr Rheoli Datblygu fod cytundeb adran 106 yn sicrhau y gwneir gwaith monitro drwy arolygon llystyfiant. Gellir cynnwys cynllun rheoli a monitro gydag amodau cynllunio ynghlwm wrth unrhyw gymeradwyaeth i'r cais.

Dywedodd y Cynghorydd K P Hughes bod angen lleol am dai fforddiadwy a bod y cais yn cydymffurfio â pholisïau cynllunio. Cynigiodd y Cynghorydd Hughes y dylid cymeradwyo'r cais. Eiliodd y Cynghorydd Eric W Jones y cynnig gan fod angen tai fforddiadwy fel y nodir yn y polisïau cynllunio.

Cynigiodd y Cynghorydd Vaughan Hughes ailddatgan y penderfyniad blaenorol i wrthod y cais. Eiliodd y Cynghorydd Glyn Haynes y cynnig.

Yn dilyn y bleidlais a gyda phleidlais fwrw'r Cadeirydd:-

**PENDERFYNWYD caniatáu'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog yn ddarostyngedig i'r amodau sydd yn yr adroddiad ysgrifenedig.**

**7.3 VAR/2020/66 - Cais o dan Adran 73 i dynnu amod (10) (Sgrin gwydr aneglur) o ganiatâd cynllunio rhif FPL/2019/134 (Codi 88 fflat) yn hen Ysgol Gynradd, Ffordd Pentraeth, Porthaethwy**

Cyflwynwyd y cais i'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion ar gais dau aelod lleol.

Adroddodd y Rheolwr Rheoli Datblygu fod y cais wedi'i wrthod yn y cyfarfod diwethaf yn groes i argymhelliad y Swyddog oherwydd lefel annerbyniol o edrych dros yr eiddo cyfagos. Nododd fod amod cynllunio wedi'i osod fel rhan o'r cais gwreiddiol y dylid codi paneli gwydr aneglur ar falconïau'r llawr cyntaf a'r ail lawr ar ddrychiad gorllewinol y cais sy'n rhan o fflatiau 6 ac 8. Mae cais nawr i ddileu amod (10) i ddileu'r angen am wydr aneglur. Rhoddwyd lluniau o'r safle i'r Pwyllgor yn y cyfarfod diwethaf ac mae'r eiddo cyfagos bellach wedi cael caniatâd cynllunio i godi uchder eu garej a byddai hyn yn lleihau unrhyw orderych ymhellach ac yn creu sgrin. Yr argymhelliad o hyd yw caniatáu'r cais.

Dywedodd y Cynghorydd Robin Williams, ac aelod lleol ei fod wedi cynnig y dylid gwrthod y cais yn y cyfarfod diwethaf, ac nid yw'n cytuno nad oes unrhyw oredrych. Dywedodd hefyd fod y datblygwr yn gosod gwydr aneglur ar y fflatiau uwchben y ddau fflat yma. Cynigiodd y Cynghorydd Robin Williams ailddatgan y penderfyniad blaenorol i wrthod y cais. Eiliodd y Cynghorydd K P Hughes y cynnig i wrthod.

**PENDERFYNWYD ailddatgan y penderfyniad blaenorol i wrthod y cais.**

## 8 CEISIADAU ECONOMAIDD

Ni chafodd yr un ohonynt eu hystyried gan y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.

## 9 CEISIADAU AM DAI FFORDDIADWY

Ni chafodd yr un ohonynt eu hystyried gan y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.

## 10 CEISIADAU SY'N MYND YN GROES I BOLISI

Ni chafodd yr un ohonynt eu hystyried gan y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.

## 11 CYNIGION DATBLYGU A GYFLWYNWYD GAN GYNGHORWYR A SWYDDOGION

### 11.1 FPL/2021/7 – Cais llawn ar gyfer cadw a chwblhau'r sied amaethyddol ynghyd â gosod ffos gerrig ar dir yn Prysan Fawr, Bodedern

Cyflwynwyd y cais i'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion gan fod yr ymgeisydd yn perthyn i swyddog perthnasol fel y'i diffinnir ym mharagraff 4.6.10.2 o'r Cyfansoddiad. Mae'r Swyddog Monitro wedi craffu ar y cais fel sy'n ofynnol o dan baragraff 4.6.10.4 o'r Cyfansoddiad.

*Ar ôl datgan diddordeb personol yn y cais hwn ni chymerodd y Cynghorydd John Griffith ran yn y drafodaeth na phleidleisio maes o law.*

Gwnaed cais gan y Cynghorydd K P Hughes ac aelod lleol i ymweld â safle'r cais fel y gall y Pwyllgor weld y safle a'r effaith ar Adeiladau Rhestredig cyfagos gerllaw. Eiliodd y Cynghorydd Robin Williams y cynnig i drefnu ymweliad safle.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog ac yn ddarostyngedig i'r amodau sydd yn yr adroddiad ysgrifenedig.**

## 12 GWEDDILL Y CEISIADAU

### 12.1 FPL/2021/1 – Cais llawn ar gyfer newid defnydd adeilad rhestredig i fod yn 4 fflat llety cymdeithasol ynghyd ag addasiadau ac estyniadau ym Mhlas Alltran, 3 Turkey Shore Road, Caergybi

Cyflwynwyd y cais i'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion gan fod y cais wedi'i gyflwyno gan yr Awdurdod Lleol.

Adroddodd y Rheolwr Rheoli Datblygu mai cais yw hwn i adnewyddu'r adeilad presennol yn 4 fflat llety cymdeithasol mewn Adeilad Rhestredig Gradd II. Mae'r adeilad wedi bod yn wag ac nid yw wedi cael ei ddefnyddio ers nifer o flynyddoedd. Mae lleoliad yr adeilad o fewn safle amlwg ger porthladd Caergybi. Nododd fod un llythyr yn gwrthwynebu'r cais wedi dod i lawr ond mae'n dderbyniol o fewn ei gyd-destun ac mae'n dderbyniol i Gyngor Tref Caergybi. Fodd bynnag, mae'r safle yn rhannol o fewn parth C2 lle nad yw creu unedau preswyl newydd, neu gynnydd yn y ddarpariaeth o unedau preswyl, yn dderbyniol yn unol â pholisi cynllunio cenedlaethol. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd wedi gwrthwynebu'r cais ac mae trafodaethau'n parhau ynglŷn â'r cais. Dywedodd y Rheolwr Rheoli Datblygu ymhellach mai creu 4 fflat yw'r ddarpariaeth leiaf bosibl yn yr adeilad. Ystyrir bod hwn yn gyfle unigryw i adfer yr adeilad. Ystyrir bod y datblygiad yn dderbyniol yn amodol ar drafodaethau ffafriol gyda Cyfoeth Naturiol Cymru er mwyn lliniaru cynigion cyn rhoi caniatâd.

Dywedodd y Cynghorydd T Ll Hughes MBE fod angen dod â'r adeilad yn ôl i ddefnydd ond mae pryderon ynglŷn â thraffig trwm ger y safle.

Dywedodd y Cynghorydd Glyn Haynes fod hwn yn adeilad unigryw a bod angen ei adnewyddu. Cynigiodd y Cynghorydd Haynes y dylid caniatáu'r cais. Eiliodd y Cynghorydd Robin Williams y cynnig.

**PENDERFYNWYD caniatáu'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog ac yn ddarostyngedig i'r amodau sydd yn yr adroddiad ysgrifenedig unwaith y cytunwyd ar fesurau lliniaru derbyniol i ddelio â gwrthwynebiad Cyfoeth Naturiol Cymru.**

### 12.2 LBC/2021/1 – Caniatâd Adeilad Rhestredig ar gyfer addasu adeilad rhestredig sydd wedi'i adael i fod yn 4 fflat llety cymdeithasol, dymchwel rhan o'r adeilad a chodi estyniad yn ei le ynghyd â gwaith allanol a mewnol ym Mhlas Alltran, 3 Turkey Shore Road, Caergybi

Cyflwynwyd y cais i'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion gan fod y cais wedi'i gyflwyno gan yr Awdurdod Lleol.

Dywedodd y Rheolwr Rheoli Datblygu fod y cais ar gyfer Caniatâd Adeilad Rhestredig gan mai'r awdurdod lleol yw'r ymgeisydd.

Cynigiodd y Cynghorydd K P Hughes y dylid caniatáu'r cais. Eiliodd y Cynghorydd T Ll Hughes MBE y cynnig.

**PENDERFYNWYD cyfeirio'r cais at Lywodraeth Cymru am Ganiatâd Adeilad Rhestredig.**

**12.3 FPL/2020/164 – Cais llawn ar gyfer newid defnydd yr adeilad allanol yn llety gwyliau ynghyd ag addasu ac ehangu ym Mwthyn Lleiniog, Penmon, Biwmares**

Cyflwynwyd y cais i'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion ar gais aelod lleol.

*Siaradwr Cyhoeddus*

Dywedodd Mr Rhys Davies (asiant yr ymgeisydd) fod y cais hwn yn ymwneud â newid defnydd ar gyfer addasu adeilad allanol yn uned wyliau ynghyd ag addasu ac ehangu yn Lleiniog, Penmon, Biwmares.

Dywed y pwyllgor mai'r prif ystyriaethau cynllunio yw – a yw'r cais yn cydymffurfio â pholisïau perthnasol yn y cynllun datblygu lleol ac a yw'r dyluniad yn dderbyniol o ran ei ddyluniad a'i edrychiad o ystyried ei leoliad a'i statws rhestredig mewn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol dynodedig.

Yn gyntaf, yn yr achos hwn, y brif ystyriaeth yw effaith y datblygiad ar nodweddion a chymeriad yr adeilad rhestredig - erbyn hyn mae'r caniatâd adeilad rhestredig wedi'i gymeradwyo ar gyfer y gwaith - gan Gyngor Sir Ynys Môn fel yr Awdurdod Cynllunio yn ogystal â CADW. Mae'n amlwg ei fod felly'n ddatblygiad derbyniol o safbwynt adeilad rhestredig. Wrth ystyried materion cynllunio eraill - mater a godir yn aml ar geisiadau tebyg p'un ai a yw'r datblygiad yn gynaliadwy. Yn yr achos hwn, mae adroddiad y pwyllgor yn cadarnhau bod y safle'n agos at safle bws. Mae llwybr uniongyrchol sy'n mynd o Lleiniog i ganol Llangoed. Hefyd, mae'r safle'n agos at Lwybr Arfordir Cymru a llwybrau cyhoeddus eraill sy'n darparu cysylltiadau da ag aneddiadau cyfagos, yr arfordir a chefn gwlad yn ehangach. Felly, mae'r safle mewn lleoliad cynaliadwy o ran mynediad i drafnidiaeth gyhoeddus, gwasanaethau ac amwynderau. Rhaid cofio hefyd bod yr adeiladau hyn o bwysigrwydd hanesyddol a heb ganiatâd i gael eu defnyddio fel unedau gwyliau - mae'n debygol y bydd yr adeilad yn dirywio ymhellach. Bydd y cais hwn yn dod ag adeilad presennol yn ôl i ddefnydd ac felly bydd yn diogelu ac yn gwella adeilad rhestredig. Mae ceisiadau eraill yn cael eu hystyried ar hyn o bryd ar y safle hwn yn Lleiniog a deallwn fod y Cyngor Cymuned yn pryderu am elfennau eraill o'r datblygiad. Yn gyffredinol, mae angen gwaith sylweddol ar y safle er mwyn sicrhau dyfodol yr adeiladau rhestredig. Mae'r datblygwr yn trafod materion pellach gyda'ch Swyddog a byddem yn fodlon cynnal cyfarfod rhithwir â'r Cyngor Cymuned ac Aelodau Lleol i gyflwyno'r cynlluniau cyffredinol ar gyfer y safle pe bai angen. Yn y cyfamser, gobeithio y gallwch ganiatáu'r cais hwn heddiw yn unol â'r caniatâd adeilad rhestredig sydd eisoes wedi'i roi.

Dywedodd y Cynghorydd Alun Roberts, aelod lleol fod y safle hwn yn destun pryder yn lleol a gwnaeth gais i ymweld â'r safle. Nododd fod y gwaith hwn yn

un o sawl gwaith adeiladu ar y safle a bod angen edrych ar y safle yn ei gyfanrwydd. Nododd bryderon ynghylch peryglon traffig ar y ffordd fynediad a llifogydd posibl. Nid yw'r ffordd yn ddigonol ar gyfer traffig yn ôl a blaen i'r safle. Mae'n adeilad rhestredig ac mewn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol. Ar hyn o bryd mae trafodaethau gyda'r Swyddog Gorfodi a'r datblygwr ynghylch agweddau ar y datblygiad ar y safle.

Cynigiodd y Cynghorydd John Griffith y dylid ymweld â'r safle ac eiliodd y Cynghorydd T Ll Hughes MBE y cynnig.

**PENDERFYNWYD ymweld â'r safle ar gais aelod lleol am y rhesymau a roddwyd.**

## 13 MATERION ERAILL

Ni chafodd yr un mater arall ei hystyried gan y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.

**Y CYNGHORYDD NICOLA ROBERTS**
**CADEIRYDD**

# YMWELIADAU Â SAFLEOEDD CYNLLUNIO

## Cofnodion y cyfarfod rhithiol a gynhaliwyd ar 17 Mawrth, 2021

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Nicola Roberts (Cadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr John Griffith, Glyn Haynes, T Ll Hughes MBE, K P Hughes, Dafydd Roberts, |
| **WRTH LAW:** | Rheolwr Rheoli Datblygu (NJ),<br>Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu (DPJ),<br>Uwch Swyddog Cynllunio (JR),<br>Uwch Swyddog Cynllunio (CR),<br>Uwch Beiriannydd (Rheoli Datblygu-Priffyrdd) (EJ),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr Vaughan Hughes, R O Jones. |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Aelodau Lleol: Y Cynghorydd Llinos M Huws (eitemau 1 a 2);<br>Y Cynghorwyr Carwyn Jones ac Alun Roberts (eitem 3) |

---

**1. FPL / 2020/247 - CAIS LLAWN AR GYFER CODI 9 ANNEDD YNGHYD Â GWAITH CYSYLLTIEDIG AR DIR GER STAD BRYN, LLANFAETHLU**

Dangoswyd y lluniadau yn ogystal â fideo o'r ardal a thrafodwyd manylion y cais.

**2. FPL/2021/7 – CAIS LLAWN AR GYFER CADW A CHWBLHAU'R SIED AMAETHYDDOL YNGHYD Â GOSOD FFOS GERRIG AR DIR YN PRYSAN FAWR, BODEDERN**

Dangoswyd y lluniadau yn ogystal â fideo o'r ardal a thrafodwyd manylion y cais.

**3. FPL/2020/164 – CAIS LLAWN I DROSI'R ADEILADU YN UNED WYLIAU YNGHYD Â GWAITH ALTRO AC ESTYNIADAU YN BWTHYN LLEINIOG, PENMON, BIWMARES**

Dangoswyd y lluniadau yn ogystal â fideo o'r ardal a thrafodwyd manylion y cais

**Y CYNGHORYDD NICOLA ROBERTS**
**CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

**Pwyllgor Cynllunio:** 07/04/2021 **7.1**

**Rhif y Cais: FPL/2021/7**

**Ymgeisydd:** C & A Roberts

**Bwriad:** Cais llawn ar gyfer cadw a chwblhau'r sied amaethyddol ynghyd â gosod ffos gerrig ar dir yn

**Lleoliad:** Prysan Fawr, Bodedern




**Adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd (Colette Redfern)**

**Argymhelliad:** Caniatáu

**Rheswm dros Adrodd i'r Pwyllgor**

Mae'r ymgeisydd yn perthyn i swyddog perthnasol fel y'i diffinnir ym mharagraff 4.6.10.2 o'r Cyfansoddiad.

Mae'r Swyddog Monitro wedi craffu ar y cais fel sy'n ofynnol o dan baragraff 4.6.10.4 o'r Cyfansoddiad.

Yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Mawrth, 2021 penderfynodd yr Aelodau ymweld â'r safle cyn penderfynu ar y cais.

Ymwelwyd â'r safle yn rhithiol ar 17 Mawrth, 2021 a bydd yr Aelodau nawr yn gyfarwydd â'r safle a'i leoliad.

**Y Cynnig a'r Safle**

Mae'r cais yn gais ôl-weithredol i gadw a chwblhau'r sied amaethyddol sydd wedi'i chodi'n rhannol ar y tir ynghyd â gosod ffos gerrig.

Mae'r safle mewn lleoliad cefn gwlad agored tua 950 metr (wrth i'r frân hedfan) o ffin ddatblygu Bodedern, sef yr anheddiad agosaf at safle'r cais. Gellir cael mynediad i'r safle trwy drac preifat sy'n arwain oddi ar briffordd Dosbarth III sy'n rhedeg o'r B5109 tuag at yr A5.

Mae'r safle'n cynnwys y tŷ fferm Rhestredig ac adeiladau cerrig traddodiadol a oedd yn hanesyddol yn cwrdd ag anghenion y daliad. Mae'r datblygiad arfaethedig y tu ôl i'r Adeiladau Rhestredig hyn.

**Mater(ion) Allweddol**

Prif faterion y cais yw ;

- A yw'n cael effaith niweidiol ar osodiad yr adeilad rhestredig,
- A all yr adeilad ymdoddi yn y dirwedd heb effeithio'n andwyol ar gymeriad yr ardal.
- A oes angen wedi ei nodi am adeilad amaethyddol ar y daliad

**Polisïau**

**Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd**

Polisi PCYFF 3: Dylunio a Siapio Lle
Polisi Strategol PS 20: Diogelu a Lle bo'n Berthnasol Wella Asedau Treftadaeth

Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio (2016)
Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol (2017)

Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 11, Chwefror 2021)

Adran 16(2) o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990.

**Ymateb i'r Ymgynghoriad a'r Cyhoeddusrwydd**

| Ymgynhorai | Ymateb |
|---|---|
| Cynghorydd John Griffith | Dim ymateb ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn. |
| Cynghorydd Kenneth P. Hughes | Dim ymateb ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn. |
| Cynghorydd Llinos Medi Huws | Dim ymateb ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn. |
| Cyngor Cymuned Bodedern Community Council | Dim ymateb ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn. |
| Ymgynghorydd Treftadaeth / Heritage Advisor | Dim effaith ar leoliad yr Adeiladau Rhestredig. |
| Ymgynghoriadau Cynllunio YGC | Dim ymateb ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn. |
| Ymgynghorydd Tirwedd / Landscape Advisor | Dim Sylwadau |
| Ymgynghorydd Ecolegol ac Amgylcheddol / Ecological and Environmental Advisor | Argymell plannu gwrych brodorol newydd. |

Mae'r cynnig wedi'i hysbysebu trwy ysgrifennu at ddeiliaid eiddo cyfagos a thrwy gyhoeddi rhybudd yn y wasg leol. Y dyddiad diwethaf ar gyfer derbyn unrhyw sylwadau oedd 3 Mawrth 2021. Ar adeg

ysgrifennu'r adroddiad hwn, derbyniwyd un llythyr gyda sylwadau yn yr adran. Gellir crynhoi'r prif faterion a godwyd fel a ganlyn;

i. Mae'r safle'n cael ei ddefnyddio i redeg busnes concrit. Cadwyd sgip a drwm concrit ar y safle ddiwedd mis Mai 2020 ac felly ni fydd yr ymgeisydd yn gallu cydymffurfio â'r amod cynllunio sy'n cyfyngu'r defnydd i ddibenion amaethyddol yn unig

ii. Codwyd y sied cyn 01/06/2020

iii. Oherwydd maint y sied gellir gweld y sied o bell ac nid yw'n cydweddu â'r dirwedd.

iv. Pam mae angen drws caead rholer a drws personél?

v. A yw'r Swyddog Cynllunio wedi ymweld â'r safle?

Mewn ymateb i'r uchod byddwn yn gwneud sylwadau fel a ganlyn;

i. Mae'r ymgeisydd wedi cadarnhau bod hon yn fferm weithredol sy'n cynnwys 100 erw. Mae'r ymgeisydd wedi cadarnhau nad yw'r safle'n cael ei ddefnyddio i storio offer / wagenni a bod y defnydd a wneir o'r safle ar hyn o bryd ac i'r dyfodol i ddibenion amaethyddol. Mae'r offer wedi cael ei symud o'r safle ers hynny. Daethpwyd â'r sgip y cyfeirir ati yng nghwyn y gwrthwynebydd i'r safle i ddibenion cadw tŷ cyffredinol ar y safle.

Mae’r ymgeisydd wedi cadarnhau bod angen y sied i gadw peiriannau sy’n cynnwys tri thractor, cerbyd fferm, tri threlar amaethyddol a dau Murlo amaethyddol. Mae'r ymgeisydd wedi cadarnhau bod angen y peiriannau hyn i fedru gweithio'r tir yn effeithiol.

Mae'r ymgeisydd hefyd wedi cadarnhau bod y siediau sydd ar y tir ar hyn o bryd mewn cyflwr gwael ac yn ansefydlog yn strwythurol.

ii. Dywedodd yr ymgeisydd ar y ffurflen gais bod y gwaith wedi cychwyn ar 1 Mehefin, 2020. Er bod y gwrthwynebydd yn nodi i'r sied gael ei chodi ym mis Mai a bod y lluniau wedi'u tynnu ddiwedd mis Mai, nid oes gan yr union ddyddiad y cychwynnodd y gwaith ar y safle effaith ar y cais cyfredol. Mae'r cais wedi'i gyflwyno er mwyn unioni achos o dorri rheolaeth gynllunio.

iii. Mae'r sied yn mesur 24.2m x 15.2 m x 6.5 m o uchder. Mae maint a dyluniad y sied yn debyg i adeiladau amaethyddol eraill sydd i'w gweld mewn lleoliadau cefn gwlad. Nid ystyrir bod lleoliad na maint y sied yn cyfiawnhau gwrthod y cais.

iv. Mae'r ymgeisydd wedi cadarnhau bod angen drws caead rholer at ddibenion diogelwch ac y bydd drws personél, oherwydd ei natur, yn caniatáu mynediad haws i unigolion fynd i mewn ac allan o'r adeilad

v. Gellir cadarnhau bod y Swyddog Achos wedi ymweld â'r safle.

**Hanes Cynllunio Perthnasol**

Dim hanes cynllunio

**Prif Ystyriaethau Cynllunio**

Cyflwynwyd y cais yn dilyn ymchwiliad gorfodaeth. Daeth yr holl waith mewn perthynas â chodi'r adeilad i ben yn dilyn ymyrraeth yr awdurdod cynllunio lleol.

Mae paragraff 14.2.2 o Lawlyfr Rheoli Datblygu Llywodraeth Cymru yn nodi, *‘Er nad yw’n drosedd cyflawni datblygiad heb gael unrhyw ganiatâd cynllunio angenrheidiol yn gyntaf, nid yw gweithredu o'r fath yn cael ei annog. Ni ddylid dehongli'r ffaith bod camau gorfodi yn ddewisol ac y dylid eu cymryd fel dewis*

*olaf yn unig a dim ond pan fydd yn briodol, fel mater sy'n esgusodi torri rheolau cynllunio'n fwriadol. Mae pwerau ar gael i awdurdodau cynllunio lleol i reoli datblygiad anawdurdodedig a'u cyfrifoldeb nhw yw penderfynu pa bŵer neu gyfuniad o bwerau, i'w ddefnyddio.*

Mae paragraff 14.2.3 yn nodi: *'Wrth ystyried camau gorfodi, dylai'r ACLl ystyried yn fwy na dim a fyddai'r datblygiad anawdurdodedig yn effeithio'n annerbyniol ar amwynder y cyhoedd neu'r defnydd presennol o dir ac adeiladau sy'n werth eu diogelu er budd y cyhoedd. Dylai camau gorfodi fod yn gymesur â'r effeithiau cynllunio a achosir gan y datblygiad anawdurdodedig; fel arfer nid yw'n briodol cymryd camau gorfodi ffurfiol mewn achos o dorri mân reolau neu fater technegol nad yw'n amharu ar amwynder y cyhoedd. Dylid sicrhau mai'r bwriad yw cywiro effeithiau'r datblygiad anawdurdodedig, nid cosbi'r person (au) sy'n cyflawni'r gweithrediad neu'r defnydd. Ni ddylid cymryd camau gorfodi ychwaith i reoleiddio datblygiad na ofynnwyd am ganiatâd ar ei gyfer, ond sydd fel arall yn dderbyniol.*

**Effaith ar leoliad Adeilad Rhestredig -** Mae'r adeilad wedi'i godi'n rhannol y tu ôl i'r Adeiladau Rhestredig Gradd II sy'n rhan o grŵp o adeiladau fferm cyflawn gyda'r eiddo.

Dywed Polisi PS 20 o Gynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd, wrth geisio cefnogi anghenion economaidd a chymdeithasol ehangach ardal y Cynllun, y bydd yr Awdurdodau Cynllunio Lleol yn diogelu, a lle bo hynny'n briodol, yn gwella eu hasedau treftadaeth unigryw.

**Gofynion Deddfwriaethol a Pholisi:** Mae adran 16(2) o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 yn nodi:

(2) Wrth ystyried a ddylid rhoi caniatâd adeilad rhestredig ar gyfer unrhyw, waith bydd yr awdurdod cynllunio lleol neu'r Ysgrifennydd Gwladol yn rhoi sylw arbennig i ddymunoldeb diogelu'r adeilad neu ei leoliad neu unrhyw nodweddion o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig sydd ganddo '.

Caniateir cynigion a fydd yn gwarchod a lle bo'n briodol yn gwella'r asedau treftadaeth canlynol, eu lleoliad a golygfeydd sylweddol i mewn ac allan o'r adeilad / ardal.

Mae'r sied yn mesur 24.2m x 15.2 m x 6.5 m o uchder ac mae wedi'i lleoli 4 metr i ffwrdd o gefn y strwythurau rhestredig. Roedd Swyddog Treftadaeth yr awdurdod cynllunio lleol wedi codi pryderon i ddechrau ynghylch defnyddio cladin proffil blwch o liw 'Merywen Werdd' ac mae wedi argymell y dylid gorffen yr adeilad â dalennau llwyd di-sglein er mwyn lleihau'r cyferbyniad â'r adeilad rhestredig. Mae'r cynllun wedi'i ddiwygio fel bod y deunyddiau gorffen ar gyfer y sied yn lliw 'Goosewing Grey' yn unol â'r argymhelliad hwn. Ers hynny mae Cynghorydd Treftadaeth yr Awdurdod wedi cadarnhau bod hyn yn dderbyniol.

Er y cydnabyddir bod yr adeilad yn agos at yr adeiladau rhestredig, nid ystyrir bod ei effaith mor andwyol fel ei fod yn cyfiawnhau gwrthod y cais. Mae ei leoliad yn cael ei liniaru gan faint ei ôl troed a'r defnydd o ddeunyddiau gorffen addas yn unol ag argymhellion Swyddog Treftadaeth yr Awdurdod. Ar ôl pwyso a mesur, ystyrir y bydd y cynnig yn arwain at fath o ddatblygiad sy'n diogelu'r asedau treftadaeth ar y safle yn unol â'r polisi cyfredol ac a fydd hefyd yn cynorthwyo i integreiddio'r datblygiad i ffurfio rhan o'r dirwedd ehangach.

**Effaith ar yr ardal gyfagos** – Mae Polisi PCYFF3: Dylunio a Chynllunio Lle yn nodi bod disgwyl i gynigion ddangos dyluniad o ansawdd uchel sy'n ystyried y cyd-destun amgylcheddol naturiol, hanesyddol ac adeiledig yn llawn. Mae'r polisi'n mynd ymlaen i nodi bod yn rhaid i gynigion ategu a gwella cymeriad a golwg y safle o ran lleoliad, golwg, graddfa, uchder, mas a thriniaeth drychiadau. Dylai deunyddiau fod yn briodol i'w hamgylchoedd.

Mae'r polisi hwn yn chwarae rhan bwysig wrth roi sylw i ddyluniad datblygiadau newydd er mwyn cynnal datblygiadau o ansawdd uchel. Mae dyluniad da yn helpu i ddarparu ymdeimlad o le, yn creu neu'n atgyfnerthu hynodrwydd lleol, yn hyrwyddo cydlyniant cymunedol a lles cymdeithasol. Dylai datblygiadau newydd integreiddio i'w hamgylchedd, gan geisio gwella cymeriad cyffredinol yr ardal. Bydd angen

dyluniad o ansawdd uchel ar gyfer pob datblygiad. Mae Polisi PCYFF3 yn nodi ystod o faterion y mae'n rhaid eu cymryd i ystyriaeth.

Mae'r adeilad wedi'i leoli o fewn cyfadadeiladau'r fferm ac nid oes unrhyw eiddo'n gyfagos. Mae'r safle mewn lleoliad cefn gwlad agored lle gwelir adeiladau amaethyddol tebyg.

Bydd y lleoliad, y raddfa a'r deunyddiau y bwriedir eu defnyddio wrth godi'r adeilad yn sicrhau math o ddatblygiad a fydd yn ymdoddi'n dda yn y dirwedd ac a fydd yn gydnaws â statws rhestredig yr adeiladau sydd gyferbyn â safle'r cais.

**Yr angen am adeilad amaethyddol ar y daliad**

Yn unol â'r manylion a gyflwynwyd fel rhan o'r cais ynghyd â'r manylion ychwanegol a gyflwynwyd mewn ymateb i'r gwrthwynebiad, sefydlwyd bod angen adeilad amaethyddol i wasanaethu anghenion y daliad. Mae'r ymgeisydd wedi cadarnhau bod angen y sied i gadw peiriannau sy'n cynnwys tri thractor, cerbyd fferm, tri threlar amaethyddol a dau Murlo amaethyddol. Mae'r ymgeisydd wedi cadarnhau bod angen y peiriannau hyn i weithio'r tir yn effeithiol.

Mae'r ymgeisydd hefyd wedi cadarnhau bod y siediau sydd ar y safle ar hyn o bryd mewn cyflwr gwael ac yn ansefydlog yn strwythurol. Ar sail y wybodaeth a gyflwynwyd ystyrir y gellir cyfiawnhau bod angen adeilad amaethyddol i wasanaethu anghenion y daliad.

**Casgliad**

Ar ôl pwyso a mesur, er bod ystyriaeth fanwl wedi'i rhoi i'r gwrthwynebiadau i'r cynnig, nid ystyrir bod y materion hyn ynddynt eu hunain yn ddigon i gyfiawnhau gwrthod y cais.

Sefydlwyd bod angen adeilad amaethyddol ar y safle sy'n gymesur â gofynion y daliad. At hynny, nid ystyrir y bydd y datblygiad yn cael effaith niweidiol ar yr adeiladau rhestredig Gradd II nac ar y dirwedd o'i amgylch ar yr amod y defnyddir cladin allanol fel yr argymhellwyd gan Gynghorydd Treftadaeth yr Awdurdod. Yn ogystal, gellir cadarnhau hefyd y bydd gwrych newydd o rywogaethau brodorol yn cael ei blannu er budd bio-amrywiaeth ar hyd y drychiad dwyreiniol yn unol ag argymhelliad y Cynghorydd Ecolegol.

**Argymhelliad**

Caniatáu

**(01) Rhaid i'r adeilad a gymeradwyir drwy hyn gael ei ddefnyddio at ddibenion Amaethyddiaeth yn unig, fel y'i diffinnir gan Adran 336 (1) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (fel y'i diwygiwyd) ac nid ar gyfer unrhyw ddefnydd masnachol na busnes arall o gwbl.**

Rheswm: Sicrhau y bydd y datblygiad bob amser er budd gorau'r diwydiant amaethyddol**.**

**(02) Rhaid i'r gwaith datblygu a ganiateir drwy hyn gael ei wneud yn gwbl unol â'r manylion a ddangosir ar y cynlluniau isod, a gynhwysir ar y ffurflen gais ac mewn unrhyw ddogfennau eraill a gyflwynwyd gyda'r cais hwnnw oni bai eu bod wedi'u cynnwys mewn unrhyw ddarpariaeth yn amodau'r caniatâd cynllunio hwn.**

**PRYSAN/01 – Cynllun Lleoliad (1:5000)**
**Cynllun Lleoliad (1:2500)**
**A1-01c – Drychiadau arfaethedig, cynlluniau llawr a chynllun safle**

Rheswm: Sicrhau bod y datblygiad yn cael ei weithredu yn unol â'r manylion a gymeradwywyd.

Hefyd, rhoi awdurdod i'r Pennaeth Gwasanaeth ychwanegu at, dileu neu newid/amrywio unrhyw amod(au) cyn rhoi'r caniatâd cynllunio, cyn belled ag  na fydd y newidiadau yn effeithio ar natur neu yn mynd i galon y caniatâd/datblygiad.

**Pwyllgor Cynllunio:** 07/04/2021 **7.2**

**Rhif y Cais: FPL/2020/164**

**Ymgeisydd:** Amos Leisure

**Bwriad:** Cais llawn ar gyfer newid defnydd yr adeilad allanol i llety gwyliau ynghyd a'i addasu ac ehangu yn

**Lleoliad:** Bwthyn Lleiniog, Penmon, Biwmares




**Adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd (Joanne Roberts)**

**Argymhelliad:** Caniatáu

**Rheswm dros Adrodd i'r Pwyllgor**

Ar gais yr Aelod Lleol - Cynghorydd Alun Roberts.

Yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3ydd Mawrth 2021, penderfynodd yr aelodau ymweld â'r safle. Cynhaliwyd yr ymweliad safle ar 17 Mawrth 2021 a bydd aelodau nawr yn gyfarwydd â'r safle.

**Y Cynnig a'r Safle**

Gwneir y cais i droi'r adeilad allan yn uned wyliau ynghyd a'i addasu a'i ehangu yn Bwthyn Lleiniog, Penmon.

Mae safle'r cais wedi'i leoli yng nghefn gwlad agored mewn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol ddynodedig. Mae'r adeilad allan wedi'i restru gan ei fod yn adeilad cwrtil a leolir yng nghefn y prif Adeilad Rhestredig, Lleiniog Manor.

**Mater(ion) Allweddol**

Y prif faterion yw a ydi'r cynnig yn cydymffurfio â pholisïau perthnasol y cynllun datblygu lleol ac a yw'r cynnig yn dderbyniol o ran ei ddyluniad a'i edrychiad o ystyried ei statws rhestredig a'i leoliad mewn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol ddynodedig.

**Polisïau**

**Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd**

Polisi Strategol PS 1: Yr Iaith Gymraeg a'r Diwylliant Cymreig
Polisi Strategol PS 4: Trafnidiaeth Gynaliadwy, Datblygiad a Hygyrchedd
Polisi Strategol PS 5: Datblygu Cynaliadwy
Polisi Strategol PS 14: Yr Economi Ymwelwyr
Polisi Strategol PS 19: Gwarchod a Lle bo'n Berthnasol Gwella'r Amgylchedd Naturiol
Polisi Strategol PS 20: Diogelu a Lle bo'n Berthnasol Wella Asedau Treftadaeth
Polisi TRA 2: Safonau Parcio
Polisi TRA 4 : Rheoli Ardrawiadau Cludiant
Polisi PCYFF 1: Ffiniau Datblygu
Polisi PCYFF 2: Meini Prawf Datblygu
Polisi PCYFF 3: Dylunio a Siapio Lle
Polisi TWR 2: Llety Gwyliau
Polisi AMG 5: Cadwraeth Bioamrywiaeth Leol
Polisi AMG 1: Cynlluniau Rheolaeth Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol
Polisi AT 2: Datblygiad sy'n Galluogi
Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 11, Chwefror 2021)
Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio (2016)
Nodyn Cyngor Technegol 18: Trafnidiaeth (2007)
Nodyn Cyngor Technegol 23: Datblygu Economaidd (2014)
Nodyn Cyngor Technegol 5: Cynllunio a Chadwraeth Natur (2009)
Canllaw Cynllunio Atodol - Llety Gwyliau (2007)
Cyfarwyddydd Cynllunio Atodol: Canllawiau Dylunio yr Amgylchedd Adeiledig Gwledig a Threfol (2008)
Canllaw Cynllunio Atodol – Ail-adeiladu tai a throsi yng nghefn gwlad (Medi 2019)

**Ymateb i'r Ymgynghoriad a'r Cyhoeddusrwydd**

| Ymgynhorai | Ymateb |
|---|---|
| Ymgynghorydd Tirwedd / Landscape Advisor | Sylwadau |
| Cynghorydd Carwyn Jones | Dim ymateb adeg ysgrifennu'r adroddiad. |
| Cynghorydd Lewis Davies | Dim ymateb adeg ysgrifennu'r adroddiad. |
| Cynghorydd Alun Roberts | Yn gofyn bod y cais yn cael ei gyfeirio i'r Pwyllgor am benderfyniad. |
| Cyngor Cymuned Llangoed Community Council | Dim ymateb adeg ysgrifennu'r adroddiad. |
| Priffyrdd a Trafnidiaeth / Highways and Transportation | Argymhell amodau. |
| Iechyd yr Amgylchedd / Environmental Health | Sylwadau. |

| | |
|---|---|
| Cyfoeth Naturiol Cymru / Natural Resources Wales | Sylwadau/amodau. |
| Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd / Joint Planning Policy Unit | Sylwadau/cyngor. |
| Ymgynghoriadau Cynllunio YGC | Dim sylwadau. |
| Dwr Cymru Welsh Water | Dim gwrthwynebiad. |
| Ymgynghorydd Ecolegol ac Amgylcheddol / Ecological and Environmental Advisor | Sylwadau/cyngor. |
| Ymgynghorydd Treftadaeth / Heritage Advisor | Cefnogi. |

Rhoddwyd cyhoeddusrwydd statudol i'r cais. Fe anfonwyd llythyrau personol at ddeiliaid eiddo cyfagos. Y dyddiad olaf ar gyfer derbyn sylwadau oedd 12/01/2021.

Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad, ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau.

**Hanes Cynllunio Perthnasol**

35C203B - Newid defnydd yr adeilad allanol i defnyddio fel llecyn gwyliau ynghyd a addasu ac ehangu yn / Change of use of existing outbuilding into a holiday cottage together with alterations and extensions thereto at Lleiniog, Llangoed - Gwrthod/Refused 15.01.03

35C203C/LB - Caniatad Adeilad Rhestredig ar gyfer addasu'r adeilad allannol presennol yn / Listed Building Consent for alterations to the existing outbuilding at Lleiniog, Llangoed - Caniatau/Granted 01.10.01

35C203D - Newid defnydd yr adeilad allanol i defnyddio fel llecyn gwyliau ynghyd a addasu ac ehangu yn /Change of use of existing outbuilding into a holiday cottage together with alterations and extensions thereto at Lleiniog, Llangoed - Caniatau/Granted 11.03.04

35C203G - Cais i adnewyddu caniatad cynllunio rhif 35C203D i newydd defnydd adeilad allanol i defnydd gwyliau ac addasu ace ehangu yn / Renewal of permission ref 35C203D for change of use of existing outbuilding into a holiday cottage and alterations and extensions at Lleiniog, Llangoed - Caniatau/Granted 20.07.11

35C203H/LB - Caniatad Adeilad Rhestredig ar gyfer newid defnydd yr adeilad allannol i ddefnydd gwyliau ynghyd a'i addasu a'i ehangu wedi ei ganiatau gynt dan caniatad cynllunio rhif 35C203C\LB yn/ Listed Building Consent for the change of use of outbuilding into a holiday cottage together with alterations and extensions thereto previously approved under planning permission ref 35C203C\LB at Lleiniog, Llangoed - Caniatau/Granted 04.02.11

LBC/2020/17 - Caniatâd Adeilad Rhestredig ar gyfer trosi yr adeilad allanol i fod yn uned gwyliau yn / Listed Building Consent for for the conversion of outbuilding into holiday let at Bwthyn Lleiniog, Penmon - Caniatau/Granted 21.01.2021

SCR/2020/48 - Barn sgrinio ar gyfer newid defnydd yr adeilad allanol i llety gwyliau ynghyd a'i addasu ac ehangu yn / Screening opinion for the conversion of an outbuilding into a holiday unit together with alterations and extensions thereto at Bwthyn Lleiniog, Penmon - Dim Angen AEA / EIA Not Required - 29.09.20

**Prif Ystyriaethau Cynllunio**

Mae Polisi PCYFF 1 y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (CDLlC) yn ymwneud â ffiniau datblygu ac yn datgan y bydd cynigion tu allan i ffiniau datblygu yn cael eu gwrthod oni bai eu bod yn unol â pholisïau

penodol yn y Cynllun neu bolisïau cynllunio cenedlaethol, neu fod y cynnig yn dangos bod ei leoliad yng nghefn gwlad yn hanfodol.

Nid yw safle’r cais wedi’i leoli o fewn ffin ddatblygu ac felly nid yw’n cydymffurfio â pholisi PCYFF1. Felly, mae’n rhaid ystyried a yw’r cynnig yn cydymffurfio â pholisïau penodol eraill yn y cynllun.

Mae polisi PCYFF 2 yn ymwneud â meini prawf datblygu ac mae’n rhaid i gynigion gydymffurfio â pholisïau perthnasol yn y cynllun a pholisi a chanllawiau cenedlaethol.

Mae polisi PCYFF 3 yn ymwneud â dylunio a siapio lle a bydd disgwyl i bob cynnig arddangos dyluniad o safon uchel sy’n rhoi ystyriaeth lawn i gyd-destun yr amgylchedd naturiol, hanesyddol ac adeiledig ac sy’n cyfrannu at greu llefydd deniadol a chynaliadwy. Caniateir cynigion, gan gynnwys estyniadau a newidiadau i adeiladau a strwythurau presennol, dim ond os ellir cydymffurfio â meini prawf y polisi, os ydynt yn berthnasol.

Hefyd, rhoi awdurdod i’r Pennaeth Gwasanaeth ychwanegu at, dileu neu newid/amrywio unrhyw amod(au) cyn rhoi’r caniatâd cynllunio, cyn belled ag  na fydd y newidiadau yn effeithio ar natur neu yn mynd i galon y caniatâd/datblygiad.

**Pwyllgor Cynllunio:** 07/04/2021 **10.1**

**Rhif y Cais: VAR/2020/57**

**Ymgeisydd:** Lisa Fowlie

**Bwriad:** Cais o dan Adran 73A i ddiwygio amod (06) (Manylion Draenio), amod (09)(Newidiadau Strwythyrol) ac amod (10) (Datblygiad i'w wneud yn unol yn llwyr â'r cynlluniau / dogfennau a dderbyniwyd) o caniatâd cynllunio rhif 28C202C: Cais llawn i newid defnydd stabl i annedd, chreu mynedfa newydd i gerbydau ynghyd a gosod tanc septic er mwyn galluogi rhoi gwybodaeth draenio i mewn ar ol cychwyn gwaith a newidiadau i'r cynlluniau oedd eisioes wedi ei ganiatau yn

**Lleoliad:** Ty Newydd Bach, Llanfaelog, Ty Croes




**Adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd (Gwen Jones)**

**Argymhelliad:** Caniatáu

**Rheswm dros Adrodd i'r Pwyllgor**

Mae'r cais yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor gan fod y cynnig yn groes i bolisïau'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd ond yn un y mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn argymell ei gymeradwyo.

**Y Cynnig a'r Safle**

Mae'r cynnig yn gais Adran 73A ar gyfer amrywio amod (06) (Manylion draenio), amod (09) (Newidiadau Strwythurol) ac amod (10) (Datblygiad i'w weithredu yn unol yn llwyr â'r cynlluniau / dogfennau a

dderbyniwyd) yng nghaniatâd cynllunio 28C202C er mwyn darparu gwybodaeth ddraenio ar ôl cychwyn ar y gwaith, a diwygiadau i gynlluniau a gymeradwywyd yn flaenorol yn Ty Newydd Bach, Llanfaelog.

**Mater(ion) Allweddol**

Y mater allweddol ydi a yw cyflwyno manylion gwaith draenio ar ôl dechrau'r gwaith yn foddhaol ac a yw'r newidiadau strwythurol a'r diwygiadau bach i'r estyniad yn dderbyniol yn nhermau polisi.

**Polisïau**

**Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd**

Canllawiau Cynllunio Atodol – Ailadeiladu Tai a Throsi yn y Cefn Gwlad (Medi 2019)
Polisi PCYFF 1: Ffiniau Datblygu
Polisi PCYFF 2: Meini Prawf Datblygu
Polisi PCYFF 3: Dylunio a Siapio Lle
Polisi Tai 7: Trosi Adeiladau Traddodiadol yng Nghefn Gwlad Agored i Ddefnydd Preswyl
Polisi TRA 4 : Rheoli Ardrawiadau Cludiant

**Ymateb i'r Ymgynghoriad a'r Cyhoeddusrwydd**

| Ymgynhorai | Ymateb |
|---|---|
| Priffyrdd a Trafnidiaeth / Highways and Transportation | Hapus hefo newid geirfa yr amod. |
| Cynghorydd Richard Dew | Dim ymateb |
| Cynghorydd Gwilym O Jones | Dim ymateb |
| Cyngor Cymuned Llanfaelog Community Council | Dim ymateb |

Gosodwyd hysbysiadau safle ger y safle a hysbyswyd deiliaid eiddo cyfagos trwy lythyr. Hysbysebwyd y cais hefyd yn y papur newydd lleol gan fod y datblygiad yn groes i bolisïau cynllunio. Y dyddiad cau ar gyfer derbyn sylwadau oedd 11/03/2021. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad, nid oedd unrhyw lythyrau wedi dod i law.

**Hanes Cynllunio Perthnasol**

28C202A - Codi stabl, garej a storfa ar dir yn Ty Newydd Bach, Llanfaelog - Cymeradwywyd 2/10/97

28C202B - Cynllunio Llawn - Gwaith addasu  arfaethedig yn Ty Newydd Bach - Dychwelwyd y Cais - 10/4/15

28C202C - Cais llawn i droi stabl yn annedd, creu mynediad newydd i gerbydau ynghyd â gosod tanc septig - Tŷ Newydd Bach, Llanfaelog - Cymeradwywyd 19/11/15

VAR / 2020/36 - Cais o dan Adran 73 o ganiatâd cynllunio 28C202C - Dychwelwyd i'r ymgeisydd.

**Prif Ystyriaethau Cynllunio**

Mae'r egwyddor o godi annedd eisoes wedi'i sefydlu o dan gais cynllunio 28C202C.
Dechreuwyd ar waith draenio ac felly ystyrir bod y gwaith dan y caniatâd wedi cychwyn.

Gan fod y gwaith wedi cychwyn dan y caniatâd blaenorol rhaid ystyried y canlynol: -

· A yw'n debygol y gellir gweithredu'r caniatâd presennol?

· A yw'r manylion a gyflwynir gyda'r cais hwn yn dderbyniol?

Mae'r caniatâd presennol wedi'i weithredu a nawr rhoddir ystyriaeth i'r wybodaeth a gyflwynir gyda'r cais Adran 73A.

**Amod (06) (Draenio) yng nghaniatâd cynllunio 28C202C**

Roedd yr amod yn nodi na ddylai unrhyw ddatblygiad gychwyn nes bod manylion dylunio llawn ar gyfer draenio'r safle wedi'u cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'u cymeradwyo; fodd bynnag, mae'r gwaith wedi cychwyn heb gyflawni'r amod hwn. Gan nad yw'r amod hwn yn mynd i galon y caniatâd cynllunio, ystyrir bod amrywio'r amod hwn i ganiatáu mwy o amser i ddarparu gwybodaeth am drefniadau draenio yn dderbyniol. Bydd yr amod yn cael ei ddiwygio i nodi y bydd manylion llawn y gwaith draenio yn cael eu cyflwyno cyn y bydd neb yn byw yn yr annedd.

**Amod (09) (Newidiadau Strwythurol) yng nghaniatâd cynllunio 28C202C**

Roedd yr amod yn nodi y bydd manylion unrhyw newidiadau strwythurol pellach y gallai fod angen eu gwneud i'r adeilad yn cael eu cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig cyn dechrau ar unrhyw waith.

Mae gwaith ailadeiladu ychwanegol wedi'i wneud o amgylch rhai o'r agoriadau ffenestri, na nodwyd yn flaenorol ar gyfer ailadeiladu yn yr arolwg strwythurol gwreiddiol. Nid ystyrir bod y gwaith ailadeiladu yn ormodol ac mae'r arolwg strwythurol wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu'r adeilad fel y mae ar hyn o bryd

**Amod (10) (Lluniadau a Gymeradwywyd) yng nghaniatâd cynllunio 28C202C**

Roedd yr amod yn nodi y dylai'r gwaith fod yn unol â'r manylion a gyflwynwyd o dan y cais cynllunio blaenorol. Fodd bynnag, mae'r estyniad a godwyd ar y safle yn wahanol i'r un a gymeradwywyd. Yr estyniad a gymeradwywyd oedd 5.5m x 3.9m a oedd yn gyfanswm o 21.5 metr sgwâr ac mae'r estyniad sydd wedi'i adeiladu yn 4.7m x 4.6m sy'n gyfanswm o 22 metr sgwâr.
Mae hwn yn newid bach i'r caniatâd a gymeradwywyd yn wreiddiol. Ystyrir bod yr elfen hon o'r cynnig yn dderbyniol.

**Eiddo preswyl cyfagos**

Mae deiliaid eiddo cyfagos wedi cael gwybod am y datblygiad. Y dyddiad cau ar gyfer derbyn sylwadau oedd 11/3/21. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad nid oedd unrhyw lythyrau wedi dod i law ac nid ystyrir y bydd y cynnig yn cael unrhyw effaith ar eu mwynderau yn fwy na'r cynllun a gymeradwywyd.

**Casgliad**

Mae'r cais yn groes i Bolisi TAI 7 y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd; fodd bynnag, y sefyllfa wrth gefn yw bod gwaith wedi cychwyn dan y caniatâd blaenorol sydd wedi diogelu'r caniatâd.

Mae'r manylion a gyflwynir gyda'r cais cynllunio yn dderbyniol ac mae'r amodau wedi'u diwygio i adlewyrchu'r wybodaeth a gyflwynwyd.

**Argymhelliad**

**(01) Bydd raid sicrhau bod gosodiad y fynedfa a dull ei hadeiladu yn cydymffurfio'n llwyr gyda y cynllun amgaeedig HMPTA ffigwr 1 cyn dechrau ar y defnydd y rhoddir caniatad iddo yma ac wedyn bydd raid cadw'r fynedfa yn glir o bob rhwystr parhaol a'i defnyddio i ddibenion mynediad yn unig.**

Rheswm: Cydymffurfio a gofynion yr Awdurdod Priffyrdd.

**(02) Rhaid adeiladu'r fynedfa gyda'i graddiant yn ddim mwy nag 1 mewn 20 am y 5 metr cyntaf yn ôl o ymyl agosaf y gerbydlon gyfagos.**

Rheswm: Er mwyn sicrhau rhyngwelededd digonol rhwng y fynedfa a'r briffordd gyhoeddus gyfredol a hynny er diogelwch a hwylustod defnyddwyr y briffordd a'r fynedfa.

**(03) Rhaid adeiladu'r fynedfa gyda lleiniau gweld 2.0 metr wrth 43 metr o bobtu. O fewn llinellau'r lleiniau gweld ni chaniateir unrhyw beth uwch na 1 metr o uchder uwchlaw lefel y gerbydlon gyfagos.**

Rheswm: Er mwyn sicrhau rhyngwelededd digonol rhwng y fynedfa a'r briffordd gyhoeddus gyfredol a hynny er diogelwch a hwylustod defnyddwyr y briffordd a'r fynedfa.

**(04) Bydd wyneb bitwmen yn cael ei osod ar y fynedfa am y 5 metr cyntaf o ymyl agosaf y Briffordd Sirol a bydd y system draenio dŵr wyneb wedi cael ei chwblhau ac yn gwbl weithredol cyn y cychwynnir unrhyw waith ar weddill y datblygiad cyn y cychwynnir ar y defnydd a ganiateir yma.**

Rheswm: Er mwyn lleihau perygl, rhwystr ac anhwylustod i ddefnyddwyr y briffordd a'r datblygiad.

**(05) Bydd manylion dylunio llawn ar gyfer draenio'r safle yn cael ei gyflwyno a'i gymeradwyo yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol cyn i'r defnydd gychwyn a'r y safle.**

Rheswm: Cydymffurfio a gofynion yr Awdurdod Priffyrdd.

**(06) Bydd y lle parcio'n cael ei gwblhau mewn modd sy'n cydymffurfio'n llwyr â'r manylion a gyflwynwyd cyn i'r defnydd gychwyn.**

Rheswm: Fel y gall cerbydau dynnu i ffwrdd a throi'n glir o'r briffordd er mwyn lleihau'r perygl, rhwystr ac anhwylustod i ddefnyddwyr y briffordd gyfagos.

**(07) Ni fydd unrhyw waith yn cael ei wneud i symud neu leihau'r gwrychyn yn ystod y tymor nythu rhwng mis Mawrth hyd at ac yn cynnwys mis Medi.**

Rheswm: Er mwyn osgoi unrhyw tarfu ar adar sy'n nythu.

**(08) Os bydd angen, ar ol gweithredu'r caniatad hwn, wneud unrhyw waith altro strwythurol pellach ar yr adeilad a'r gwaith hwnnw'n debygol o gael effaith ar ei edrychiad allanol, yna bydd angen cyflwyno cais i'r awdurdod cynllunio lleol ei gymeradwyo cyn y cychwynnir ar y cyfryw waith.**

Rheswm: Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth.

**(09) Bydd gwaith ar y datblygiad a ganiateir yma yn cael ei gyflawni mewn modd a fydd yn cydymffurfio'n llwyr â'r manylion a ddangosir ar y cynlluniau a nodir isod, manylion sydd wedi eu cynnwys mewn unrhyw ddogfennau a gyflwynwyd gyda chais o'r fath oni bai eu bod wedi eu cynnwys yn narpariaethau'r amodau sy'n rhan o'r caniatâd cynllunio hwn.**

- Cynllun Lleoliad a gyflwynwyd gyda'r cais cynllunio VAR / 2020/57
- Cynllun Bloc a gyflwynwyd gyda chais cynllunio 28C202C
- Arolwg Strwythurol gan 'Cadarn Consulting DIWYGIAD 01 dyddiedig Awst 2014 a gyflwynwyd gyda'r cais cynllunio VAR / 2020/57
- Blwch Adar To - a gyflwynwyd gyda'r cais cynllunio 28C202C

- Arolwg Rhywogaethau Gwarchodedig gan Tim Hodnett dyddiedig Ebrill 2015 a dderbyniwyd gyda'r cais cynllunio 28C202C
- Drychiadau a Chynlluniau Llawr 05 a dderbyniwyd gyda'r cais cynllunio VAR / 2020/57

Rheswm: Sicrhau bod y datblygiad yn cael ei weithredu’n unol â’r manylion a gymeradwywyd.

Hefyd, rhoi awdurdod i’r Pennaeth Gwasanaeth ychwanegu at, dileu neu newid/amrywio unrhyw amod(au) cyn rhoi’r caniatâd cynllunio, cyn belled ag na fydd y newidiadau yn effeithio ar natur neu yn mynd i galon y caniatâd/datblygiad.

**Pwyllgor Cynllunio:** 07/04/2021 **10.2**

**Rhif y Cais: VAR/2021/8**

**Ymgeisydd:** ANGLESEY LIFESTYLE HOMES ANGLESEY LIFESTYLE HOMES

**Bwriad:** Cais o dan Adran 73a i ddiwygio amod (16) (Cynlluniau wedi'u cymeradwyo) o ganiatâd cynllunio rhif 45C133B (codi 3 annedd ynghyd a chreu mynedfa i gerbydau) er mwyn diwygio'r cynlluniau a'r dir ger

**Lleoliad:** Bryn Felin,Niwbwrch




**Adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd (David Pryce Jones)**

**Argymhelliad:** Caniatáu

**Rheswm dros Adrodd i'r Pwyllgor**

Mae'r cais cynllunio yn gwyro oddi wrth y cynllun datblygu ond mae'r awdurdod cynllunio lleol â'i fryd ar ei gymeradwyo.

**Y Cynnig a'r Safle**

Mae'r cais yn ymwneud â thir ar gyrion gogledd orllewin yr anheddiad sydd wedi ei leoli mewn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol. Ceir mynediad o'r A4080 ac mae lôn fynediad yn arwain at dri annedd tu ôl i'r annedd yn Bryn Felin. I'r dwyrain mae yna eiddo preswyl sy'n ffurfio rhan o stad breswyl Bryn Rhedyn.

Mae'r datblygiad yn cael ei adeiladu ar hyn o bryd. Gwneir y cais cynllunio o dan adran 73a i amrywio'r amodau cynllunio er mwyn newid cynlluniau plot 3, ac mae'r newidiadau fel a ganlyn:

· Newid y garej llawr daear yn ystafell wely a chynnwys drysau deublyg ar y drychiad blaen yn lle drysau garej, ynghyd â ffenestr newydd ar y drychiad ochr.
· Mae'r drychiad ochr gyferbyn yn cynnwys gosod 2 ffenestr ychwanegol ar gyfer y stydi ar y llawr daear ac ystafell wely 3 ar y llawr cyntaf.

**Mater(ion) Allweddol**

- Cydymffurfiaeth â pholisïau perthnasol y cynllun datblygu ac amwynder.
- Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol "AHNE"
- Amwynder eiddo cyfagos

**Polisïau**

**Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd**

Cyd-gynllun Datblygu Lleol Ynys Môn a Gwynedd (2017)
TRA 2: Safonau Parcio
TRA 4: Rheoli Effeithiau Trafnidiaeth
PCYFF 1: Ffiniau Datblygu
PCYFF 2: Meini Prawf Datblygu
PCYFF 3: Dylunio a Llunio Lleoedd
PCYFF 4: Dylunio a Thirlunio
TAI 3 Tai Mewn Pentrefi Gwasanaeth
AMG 1: Ardal o Gynlluniau Rheoli Harddwch Naturiol Eithriadol
AMG 5: Cadwraeth Bioamrywiaeth Leol
AMG 6: Amddiffyn Safleoedd o Arwyddocâd Rhanbarthol neu Leol

Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 11 "PPW"

TAN 12: Dylunio

Safonau Parcio CCA, 2008. Dylunio CCA yn yr Amgylchedd Adeiledig Trefol a Gwledig, 2008 "Canllaw Deign SPG"

Canllawiau Cynllunio Atodol Cymysgedd Tai (Hydref 2018)

Cynllun Rheoli AHNE Ynys Môn 2015-2020 "Cynllun Rheoli AHNE"

**Ymateb i'r Ymgynghoriad a'r Cyhoeddusrwydd**

Cynghorydd Peter Rogers: Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau.

Cynghorydd Bryan Owen: Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau.

Cyngor Cymuned Rhosyr Community Council: Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau.

Priffyrdd a Thrafnidiaeth / Highways and Transportation: Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau.

Ymgynghorydd Tirwedd / Landscape Advisor: Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau

Swyddog Cefn Gwlad a AHNE / Countryside and AONB Officer: Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau.

Hysbysebwyd y cais cynllunio fel cais sy'n gwyro oddi wrth y cynllun datblygu ac anfonwyd llythyrau personol a gosodwyd hysbysiadau safle a chyhoeddwyd hysbyseb mewn papur newydd lleol. Daw'r cyfnod cyhoeddusrwydd i ben ar 18.03.21. Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau ar adeg ysgrifennu'r adroddiad.

**Hanes Cynllunio Perthnasol**

VAR/2020/8 – Cais dan Adran 73 i amrywio amod (02) (Datganiad Madfall Gribog), (04) (Goleuadau Allanol), (12) (Manylion Draenio), (13) (Cynllun Rheoli Traffig) a (16) (Cynlluniau a Gymeradwywyd) o gais cynllunio rhif 45C133B (codi tri annedd) er mwyn amrywio'r amodau drwy ddarparu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani ynghyd â diwygio dyluniad yr annedd - Caniatáu

SCR/2020/9 Barn sgrinio ar gyfer codi tri annedd ynghyd ag adeiladu mynedfa i gerbydau. Dim angen Asesiad o Effaith Amgylcheddol (EIA) 25.02.2020.

HHP/2019/94 – Cais llawn ar gyfer addasu ac ymestyn ynghyd ag adleoli'r garej bresennol – Caniatáu 06.06.2019.

45C133B – Cais llawn ar gyfer codi tri annedd ynghyd ag adeiladu mynedfa i gerbydau. Caniatáu gydag Amodau 04/04/2017.

45C133C/SCR – Barn sgrinio ar gyfer codi tri annedd, adeiladu mynedfa i gerbydau ynghyd â gosod gwaith trin carthion. Dim angen Asesiad o Effaith Amgylcheddol (EIA) 07.12.2018

45C133A Addasu ac ymestyn yr annedd ynghyd â ffurfio fflat hunangynhwysol. Caniatáu gydag Amodau 13.04.1993.

**Prif Ystyriaethau Cynllunio**

**Cyd-destun**

Mae'r cais hwn dan adran 73a ar gyfer gwneud newidiadau cymharol fychan i ddyluniad un o'r anheddau a ganiatawyd yn barod. Er bod y newidiadau yn rhai bychan, mae unrhyw ganiatâd a roddir o dan adran 73a yn arwain at roi caniatâd cynllunio newydd ac mae'n rhaid ei asesu yng nghyd-destun y cynllun datblygu ac ystyriaethau cynllunio perthnasol eraill.

**Hanes Cynllunio**

Sefydlwyd yr egwyddor o ddatblygiad preswyl ar safle'r cais o dan y caniatâd cynllunio llawn a gymeradwywyd ar gyfer 3 annedd dan gyfeirnod 45C133B a roddwyd gydag amodau ar 04.04.2017 o dan y cynllun datblygu blaenorol, sydd wedi cael ei ddisodli yn awr gan y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (CDLlC) sydd yn ffurfio'r cynllun datblygu newydd. Mae'r caniatâd cynllunio sydd eisoes yn bodoli yn ystyriaeth cynllunio perthnasol sy'n cael ei alw'n "sefyllfa wrth gefn" gan fod cyfnod o ddwy flynedd, ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, pryd gellir gweithredu'r caniatâd cynllunio. Mae angen asesu pa mor dderbyniol yw'r cais adran 73a hwn yng nghyd-destun polisïau'r CDLlC ac ystyriaethau cynllunio perthnasol eraill a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn, gan gymryd y "sefyllfa wrth gefn" i ystyriaeth.

**Yr Egwyddor o Ddatblygu**

Mae'r rhan fwyaf o safle'r cais wedi'i leoli tu allan i ffin ddatblygu Niwbwrch, fel y'i diffinnir dan ddarpariaethau PCYFF1 y CDLlC. Mae Polisi PCYFF 1 yn datgan y bydd datblygiad yn cael ei wrthod y tu allan i ffiniau anheddiad oni bai ei fod yn cydymffurfio â pholisïau penodol yn y CDLlC neu bolisïau cynllunio cenedlaethol neu fod y cynnig yn dangos bod ei leoliad yng nghefn gwlad yn hanfodol. Mae Niwbwrch yn cael ei ddiffinio fel Pentref Gwasanaeth o dan ddarpariaethau Polisi TAI 3 y CDLlC ac mae'r polisi hwn yn caniatáu tai o fewn yr anheddiad ar safleoedd dynodedig neu ar hap priodol ond mae'n gwrthod tai marchnad cyffredinol fel yr hyn y gwneir cais amdano ar safleoedd y tu allan i ffin yr

anheddiad. Felly, mae'r cynnig y gofynnir am ganiatâd ar ei gyfer yn gwyro oddi wrth y cynlluniau datblygu ac fel arfer yr argymhelliad fyddai gwrthod y cais gan fod yr egwyddor o ddatblygu yn annerbyniol fel mater o egwyddor. Yn yr achos hwn, fodd bynnag, mae caniatâd cynllunio yn bodoli'n barod y gellid ei weithredu yn ystod y ddwy flynedd nesaf ac mae'n berthnasol i ystyried y canlynol:

- A yw'n debygol y gellir gweithredu'r caniatâd sy'n bodoli'n barod?
- A yw'r newidiadau i'r caniatâd yn well na'r hyn a gymeradwywyd yn barod?

Gan fod y datblygiad yn cael ei adeiladu mae'n amlwg fod y caniatâd cynllunio wedi cael ei weithredu'n barod.

Isod, mae asesiad o ystyriaethau manwl, ynghylch a ellir ystyried bod y newidiadau yn well na'r hyn a gymeradwywyd eisoes.

**Tai Fforddiadwy**

Ar ôl mabwysiadu'r CDLlC mae'n ofynnol darparu 30% o dai fforddiadwy os adeiledir 2 uned neu fwy yn Niwbwrch, os oes tystiolaeth o'r angen am dai. Oherwydd bod caniatâd cynllunio'n bodoli'n barod, nid oes unrhyw dai fforddiadwy'n cael eu cynnig fel rhan o'r cynnig sy'n destun i'r cais cynllunio hwn.

**Dyluniad ac Ymddangosiad Allanol**

Mae'r newidiadau arfaethedig yn rhai bychan ac nid oes fawr o wahaniaeth mewn termau dylunio i'r hyn a gynigiwyd fel rhan o'r caniatâd sy'n bodoli'n barod.

**Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol**

Mae safle'r cais o fewn yr AHNE ac mae paragraff 5.3.5 Polisi Cynllunio Cymru yn datgan mai prif amcan dynodi Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol yw gwarchod a gwella eu harddwch naturiol ac y dylai penderfyniadau rheoli datblygiad ffafrio gwarchod harddwch naturiol, er y bydd hefyd yn briodol ystyried lles economaidd a chymdeithasol yr ardaloedd. Yn ogystal, mae yna ofyn statudol i ystyried darpariaethau'r Cynllun Rheoli AHNE. Byddai'r wybodaeth a gyflwynwyd am ddeunyddiau allanol, ffensys, tirlunio a lliniaru unrhyw effaith ar y coed presennol fel rhan o'r cais cynllunio VAR/2020/8 yn welliant o ran gwarchod a gwella'r AHNE ac maent yn rhan o'r cynlluniau cyffredinol i'w cymeradwyo ac maent wedi eu cynnwys fel rhan o amodau'r cais cynllunio hwn.

**Ecoleg a Bioamrywiaeth**

Mae darparu cynllun tirlunio a mesurau lliniaru ychwanegol, a ddisgrifir yn y paragraff blaenorol, yn cynnig gwelliant o ran bioamrywiaeth ac mae hynny'n cyd-fynd â dyletswyddau'r cyngor dan Ddeddf yr Amgylchedd.

**Materion Eraill**

Wrth wneud argymhelliad ar y cais cynllunio hwn, rhoddwyd ystyriaeth i'r caniatâd cynllunio a roddwyd yn barod dan gyfeirnod HHP/2019/94 ar gyfer addasu ac ymestyn ac ail-leoli'r garej bresennol a dderbyniodd ganiatâd cynllunio yn 2019.

**Casgliad**

Tra bod y newid arfaethedig yn un bychan iawn ei natur, byddai'r cais yn arwain at roi caniatâd cynllunio newydd ac nid yw egwyddor y datblygiad yn dderbyniol dan bolisïau'r CDLlC ac oherwydd na fyddai tai fforddiadwy yn cael eu darparu. Fodd bynnag, argymhellir cymeradwyo'r cais cynllunio hwn dan adran 73a oherwydd bod caniatâd cynllunio eisoes yn bodoli sydd yn cael ei weithredu. Argymhellir cymeradwyo'r cynnig oherwydd y gwelliannau a ddisgrifiwyd, sydd yn ffurfio rhan o'r cynlluniau i'w

cymeradwyo, a fyddai'n deillio o'r cynnig sy'n ffurfio'r cais cynllunio hwn o gymharu â'r caniatâd cynllunio sydd eisoes yn bodoli.

Mae'r argymhelliad yn ystyried y ddyletswydd i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, o dan adran 3 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r argymhelliad yn ystyried y ffyrdd o weithio a nodir yn adran 5 Deddf WBFG ac ystyrir bod y penderfyniad hwn yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy drwy ei gyfraniad tuag at un neu fwy o amcanion llesiant Gweinidogion Cymru a nodir yn adran 8 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

O ran Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ystyrir bod y datblygiad arfaethedig yn cyfrannu at Gymru fwy gwydn a chydlynol o ran y manteision economaidd a fydd yn cronni o ganlyniad i adeiladu'r annedd ac wrth ddiwallu anghenion tai'r cymunedau.

**Argymhelliad**

Yn amodol ar dderbyn y wybodaeth sy'n weddill a ddisgrifir yn yr adroddiad ac ymatebion gan yr ymgyngoreion, argymhellir bod caniatâd cynllunio yn cael ei roi gyda'r amodau cynllunio a ganlyn:

(01) Bydd raid sicrhau bod gosodiad y fynedfa a dull ei hadeiladu yn cydymffurfio'n llwyr gyda y cynlluniau a gyflwynwyd cyn dechrau ar y defnydd y rhoddir caniatâd iddo yma ac wedyn bydd raid cadw'r fynedfa yn glir o bob rhwystr parhaol a'i defnyddio i ddibenion mynediad yn unig.

Rheswm: Er budd diogelwch y briffordd.

(03) Rhaid adeiladu'r fynedfa gyda lleiniau gweld 2.4 metr wrth 90 metr o bobtu. O fewn llinellau'r lleiniau gweld ni chaniateir unrhyw beth uwch na 1 metr o uchder uwchlaw lefel y gerbydlon gyfagos.

Rheswm: Cydymffurfio a gofynion yr Awdurdod Priffyrdd.

(02) Rhaid adeiladu'r fynedfa gyda'i graddiant yn ddim mwy nag 1 mewn 20 am y 5 metr cyntaf yn ol o ymyl agosaf y gerbydlon gyfagos.

Rheswm: Er budd diogelwch y briffordd.

(04) Rhaid cwblhau'r fynedfa gyda wyneb bitwmen neu ddeunydd wynebu addas arall am y 5 metr cyntaf o ymyl agosaf y briffordd gyhoeddus.

Rheswm: Er budd diogelwch y briffordd.

(11) Rhaid ymgymryd a'r datblygiad a ganiateir gan y caniatâd hwn yn fanwl yn ôl y cynllun(iai) a dogfen(nau) a gyflwynwyd isod:
Cynllun Lleoliad 2733: 19: l
Cynllun Safle J/ AO / SP / 01 Adolygiad D.
Plot Drychiadau Arfaethedig 1, 2,3 2733: 19: 6a (Ac eithrio'r Plot 3)
Cynllun Safle Arfaethedig 2733: 19: 3A
Plot Cynllun Llawr Arfaethedig 1 2733: 19: 4
Plot Cynllun Llawr Arfaethedig 2 a 3 2733: 19: 5 (Ac eithrio'r Plot 3)
Plot Drychiadau Arfaethedig 3 2733: 19: BR8
Cynlluniau Llawr Arfaethedig - Lleiniau 3
Bryn y Felin: Mesurau Osgoi Rhesymol Newt Cribog V1 Enfys Ecoleg
Tir yng nghefn Bryn Felin, Newborough Cyf: 45c133B Cyfiawnhad Russell-Hughes Cyf

I'w gwblhau ar ôl cyflwyno'r wybodaeth ychwanegol a restrir yn yr adroddiad.

(05) Rhaid dylunio ac adeiladu'r ffordd/ffyrdd stad a'r fynedfa'n unol â "Gofynion Technegol Ffyrdd Stadau ym Môn" (copi wedi'i amgáu gyda'r hysbysiad penderfyniad hwn).

Rheswm: Er budd diogelwch y briffordd.

(06) Rhaid gosod cyrbin ar y ffordd/ffyrdd stad, gosod wyneb terfynol ar y llwybrau cerdded a darparu goleuadau cyn i neb symud i fyw i'r annedd olaf ar y stad neu cyn pen 2 blwyddyn i ddechrau'r datblygiad.

Rheswm: Er budd diogelwch y briffordd.

(07) Rhaid cwblhau'r lle parcio ceir yn gwbl unol â'r manylion fel a gyflwynwyd cyn cychwyn ar y defnydd a ganiateir yma ac wedyn bydd raid cadw'r lle parcio i'r dibenion hyn yn unig.

Rheswm: Er budd diogelwch y briffordd.

(10) Ni chaniateir i ddŵr wyneb a / neu tir arllwys lifo yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol i'r sustem garthffosiaeth gyhoeddus.

Rheswm: Atal gormod o ddŵr rhag llifo i'r sustem garthffosiaeth gyhoeddus, gwarchod iechyd a diogelwch preswylwyr a sicrhau na chaiff yr amgylchedd ei niweidio.

(08) Ni chaniateir i ddŵr wyneb o gwrtil y safle arllwys i'r briffordd gyhoeddus.

Rheswm: Er budd diogelwch y briffordd.

(09) Serch darpariaethau Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad a Ganiateir yn Gyffredinol) (Diwygiwyd) (Cymru) 2013 (neu unrhyw Orchymyn yn diddymu neu'n ail-osod y Gorchymyn hwnnw) mae'r datblygiad a ganiateir gan Ddosbarthiadau A, B, C, D, E ac F o Ran 1 o Atodlen 2 yma'n cael eu heithrio.

Rheswm: Er mwyn diogelu mwynderau'r ardal trwy alluogi i'r awdurdod cynllunio lleol ystyried a ddylai caniatâd cynllunio gael ei roi i estyniadau o ystyried gosodiad arbennig a dyluniad y datblygiad.

Hefyd, rhoi awdurdod i'r Pennaeth Gwasanaeth ychwanegu at, dileu neu newid/amrywio unrhyw amod(au) cyn rhoi'r caniatâd cynllunio, cyn belled ag na fydd y newidiadau yn effeithio ar natur neu yn mynd i galon y caniatâd/datblygiad.

**Pwyllgor Cynllunio:** 07/04/2021 **10.3**

**Rhif y Cais: VAR/2021/11**

**Ymgeisydd:** Mr Chris Owens

**Bwriad:** Cais o dan Adran 73 i ddiwygio amod (02) o caniatâd cynllunio rhif 36C320A and MAO/2018/3 (Codi annedd) er mwyn newid y dyluniad diwygiedig yn /

**Lleoliad:** Ty Uchaf, Llangristiolus




**Adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd (Gwen Jones)**

**Argymhelliad:** Caniatáu

**Rheswm dros Adrodd i'r Pwyllgor**

Mae'r cais yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor gan fod y cynnig yn groes i bolisïau'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd ond yn un y mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn argymell ei gymeradwyo.

**Y Cynnig a'r Safle**

Mae hwn yn gais o dan Adran 73 ar gyfer amrywio amod (02) yng nghaniatâd cynllunio 36C320A a MAO/2018/3 er mwyn diwygio dyluniad yr annedd yn Ty Uchaf, Llangristiolus.

**Mater(ion) Allweddol**

Y mater allweddol ydi a yw'r dyluniad diwygiedig yn dderbyniol o dan y polisi.

**Polisïau**

**Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd**

Polisi PCYFF2 - Meini Prawf Datblygu
Polisi PCYFF3 - Dylunio a Chynllunio Lleoedd
Polisi PCYFF1 - Ffiniau Datblygu

**Ymateb i'r Ymgynghoriad a'r Cyhoeddusrwydd**

| Ymgynhorai | Ymateb |
|---|---|
| Cynghorydd Eric Wyn Jones | Dim ymateb |
| Cynghorydd Dafydd Roberts | Dim ymateb |
| Cyngor Cymuned Llangristiolus Community Council | Dim ymateb |
| Ymgynghorydd Tirwedd / Landscape Advisor | Dim effaith ar yr Ardal Tirwedd Arbennig |
| Swyddog Llwybrau Troed / Footpaths Officer | Dim sylwadau |
| Ymgynghoriadau Cynllunio YGC | Sylwadau Safonol |
| Dwr Cymru Welsh Water | Sylwadau Safonol |
| Priffyrdd a Trafnidiaeth / Highways and Transportation | Dim ymateb |

Gosodwyd hysbysiadau safle ger y safle a rhoddwyd gwybod i ddeiliaid eiddo cyfagos trwy lythyr. Hysbysebwyd y cais hefyd yn y papur newydd lleol gan fod y datblygiad yn groes i bolisïau cynllunio. Y dyddiad cau ar gyfer derbyn sylwadau oedd 25/03/2021. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad, nid oedd unrhyw lythyrau wedi eu derbyn.

**Hanes Cynllunio Perthnasol**

36C320 - Cais amlinellol ar gyfer codi annedd a garej ynghyd ag adeiladu mynedfa i gerbydau ar dir ger Ty Uchaf, Llangristiolus - Cymeradwywyd 19/12/12 - Caniatawyd yr Apêl 19/9/13

36C320A - Cais llawn i godi annedd ynghyd ag adeiladu mynedfa i gerbydau ar dir gerllaw - Ty Uchaf, Llangristiolus - 27/5/15 - Caniatawyd

36C320B/DIS - Cais i ddileu amod (03) (Cynllun Rheoli Traffig) o gais cynllunio 36C320A (cais llawn ar gyfer codi annedd - Tŷ Uchaf, Llangristiolus - Dileu Amod 22/7/15

MAO/2018/3 - Mân ddiwygiadau i'r cynllun a gymeradwywyd yn flaenorol o dan ganiatâd cynllunio 36C320A er mwyn ychwanegu amod i'r datblygiad fod yn unol â'r cynlluniau a gymeradwywyd ar dir gerllaw - Ty Uchaf, Llangristiolus - Caniatawyd 7/2/19

LUE / 2018/1 - Cais am Dystysgrif Datblygu Cyfreithlon ar gyfer gweithrediadau cyfredol sy'n cynnwys gwaith ar y fynedfa i weithredu caniatâd cynllunio 36C320A yn - Ty Uchaf, Llangristiolus, Bodorgan - Tynnwyd yn ôl

LUP / 2020/11 - Cais am Dystysgrif Cyfreithlondeb ar gyfer y defnydd arfaethedig o dir ar gyfer codi annedd newydd mewn perthynas â'r ffaith bod gwaith wedi cychwyn dan ganiatâd 36C320A sy'n ddiogelu'r caniatâd ar dir gerllaw - Ty Uchaf, Llangristiolus - Caniatawyd 11/1/21.

**Prif Ystyriaethau Cynllunio**

Mae'r egwyddor o godi annedd eisoes wedi'i sefydlu o dan gais cynllunio 36C320A a chymeradwywyd mân ddiwygiadau o dan MAO/2018/3. Barnwyd bod tystysgrif cyfreithlondeb yn gyfreithlon o dan gais LUP/2018/1 gan fod gwaith ar y fynedfa wedi cychwyn. Felly mae caniatâd cynllunio ar gyfer annedd wedi'i ddiogelu ar safle'r cais.

Cais yw hwn i newid dyluniad yr annedd a gymeradwywyd.

**Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd**

Ers mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, mae Llangristiolus wedi'i nodi fel Pentref Lleol o dan ddarpariaeth Polisi TAI 4. Nid yw safle'r cais o fewn ffin ddatblygu Llangristiolus ac felly ystyrir ei fod mewn lleoliad cefn gwlad agored.

Fodd bynnag, gan fod gwaith wedi cychwyn dan y caniatâd blaenorol ac oherwydd y cafwyd bod y dystysgrif defnydd cyfreithlon yn ddilys rhaid ystyried y canlynol: -

- A yw'n debygol y gellir gweithredu'r caniatâd presennol?
- A yw'r manylion a gyflwynir gyda'r cais hwn yn dderbyniol?

Fel y nodwyd uchod, cafwyd y Dystysgrif Cyfreithlondeb yn ddilys ac mae gwaith wedi cychwyn dan y caniatâd blaenorol sydd wedi diogelu'r caniatâd.

**Diwygiadau.**

Mae’r diwygiadau fel a ganlyn:-

**Diwygio dyluniad yr annedd.**

Mae'r dyluniad o ansawdd llawer uwch a bydd yn cydweddu â'r eiddo cyfagos yn llawer gwell na'r cynllun a gymeradwywyd yn wreiddiol. Bydd yn dilyn y math o ddyluniadau ar eiddo preswyl cyfagos.

**Cynnydd yn yr uchder.**

Roedd yr annedd a gymeradwywyd yn flaenorol yn 6.5 metr o uchder, bydd y dyluniad newydd yn cynyddu uchder yr annedd i 7.9 metr. Nid ystyrir y bydd y cynnydd yn yr uchder yn cael effaith negyddol ar yr ardal nac ar eiddo preswyl cyfagos. Derbyniwyd trawslun sy'n dangos uchder y cynnig o'i gymharu â'r eiddo cyfagos ac ni fydd y brif annedd ond 85mm yn uwch na'r eiddo cyfagos.

**Maint y cynnig.**

Roedd arwynebedd llawr yr annedd a gymeradwywyd yn flaenorol oddeutu 280 metr sgwâr. Mae arwynebedd llawr y dyluniad diwygiedig oddeutu 369 metr sgwâr. Mae'r annedd oddeutu 89 metr sgwâr yn fwy, ond nid ystyrir ei fod yn cael unrhyw effaith andwyol ar yr ardal nac ar eiddo preswyl cyfagos.

Ystyrir y bydd y dyluniad diwygiedig yn cydweddu'n llawer gwell yn yr ardal na'r caniatâd a gymeradwywyd yn flaenorol. Mae'r dyluniad o ansawdd uwch ac yn cydweddu â ffurf datblygiadau yn yr ardal gyfagos.

**Eiddo preswyl cyfagos**

Mae deiliaid eiddo cyfagos wedi cael gwybod am y datblygiad. Y dyddiad cau ar gyfer derbyn sylwadau oedd 25 Mawrth, 2021. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad, nid oedd unrhyw lythyrau wedi dod i law. Mae'r Trawslun a dderbyniwyd gyda'r cais cynllunio yn dangos uchder y cynnig mewn perthynas â'r eiddo

cyfagos ac nid ystyrir y bydd y cynnig yn cael unrhyw effaith ar eu mwynderau mwy na'r cynllun a gymeradwywyd yn flaenorol.

**Casgliad**

Mae'r cais yn groes i Bolisi TAI 4 y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd; fodd bynnag, y sefyllfa wrth gefn yw bod gwaith wedi cychwyn ar y caniatâd blaenorol sydd yn diogelu'r caniatâd.

Mae'r manylion a gyflwynwyd gyda'r cais cynllunio yn dderbyniol ac mae'r amodau wedi'u diwygio i adlewyrchu'r wybodaeth a gyflwynwyd.

**Argymhelliad**

**(01) Serch darpariaethau Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad a Ganiateir yn Gyffredinol) (Diwygiwyd) (Cymru) 2013 (neu unrhyw Orchymyn yn diddymu neu'n ail-osod y Gorchymyn hwnnw) mae'r datblygiad a ganiateir gan Ddosbarthiadau A, B, C, D, E ac F o Ran 1 o Atodlen 2 yma'n cael eu heithrio.**

Rheswm: Er budd mwynderau preswyl a gweledol.

**(02) Bydd llechi naturiol unlliw yn cael eu defnyddio ar gyfer to'r anheddau arfaethedig.**

Rheswm: Er mwyn sicrhau bod y datblygiad er budd amwynder.

**(03) Bydd gwaith ar y datblygiad a ganiateir yma yn cael ei gyflawni mewn modd a fydd yn cydymffurfio'n llwyr â'r manylion a ddangosir ar y cynlluniau a nodir isod, manylion sydd wedi eu cynnwys mewn unrhyw ddogfennau a gyflwynwyd gyda chais o'r fath oni bai eu bod wedi eu cynnwys yn narpariaethau'r amodau sy'n rhan o'r caniatâd cynllunio hwn.**

- **Cynllun Lleoliad**
- **Cynllun Safle a Croes Doriadau SHA-349-03(A)**
- **Drychiadau Arfaethedig SHA-349-02**
- **Cynllun Rheoli Traffic Adeiladu a dderbyniwyd gyda cais cynllunio 36C320B/DIS**

Rheswm: Sicrhau bod y datblygiad yn cael ei weithredu'n unol â'r manylion a gymeradwywyd.

Hefyd, rhoi awdurdod i'r Pennaeth Gwasanaeth ychwanegu at, dileu neu newid/amrywio unrhyw amod(au) cyn rhoi'r caniatâd cynllunio, cyn belled ag na fydd y newidiadau yn effeithio ar natur neu yn mynd i galon y caniatâd/datblygiad.

This page is intentionally left blank


**Pwyllgor Cynllunio:** 07/04/2021 **11.1**

**Rhif y Cais: HHP/2021/12**

**Ymgeisydd:** Mr & Miss Lloyd Davies & Woodcock

**Bwriad:** Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu yn

**Lleoliad:** Llain Farged, Ffordd Eleth, Moelfre




**Adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd (Sion Hughes)**

**Argymhelliad:** Caniatáu

**Rheswm dros Adrodd i'r Pwyllgor**

Gwneir y cais gan swyddog perthnasol sy'n gweithio yn yr Awdurdod lleol. Mae'r Swyddog Monitro wedi craffu ar y cais fel sy'n ofynnol dan baragraff 4.6.10.4 o'r cyfansoddiad.

**Y Cynnig a'r Safle**

Mae'r safle wedi'i leoli yn y cefn gwlad agored yn ardal Moelfre gyda mynediad trwy lôn breifat. Mae'r eiddo'n cynnwys parcio oddi ar y ffordd yn y tu blaen a gardd yn y cefn. Mae'r eiddo ar wahân ac yn ddeulawr. Gwneir y cynnig i godi estyniad unllawr yng nghefn yr eiddo i ddarparu lle ar gyfer ystafell haul ynghyd â chodi estyniad deulawr ar yr ochr.

**Mater(ion) Allweddol**

Ystyrir mai materion allweddol y cynnig yw'r canlynol:
Dylunio
Effaith ar fwynderau cyfagos

**Polisïau**

**Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd**

Polisi PCYFF 2: Meini Prawf Datblygu
Polisi PCYFF 3: Dylunio a Siapio Lle
Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio (2016)
Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol: Canllawiau Dylunio yr Amgylchedd Adeiledig Gwledig a Threfol (2008)

**Ymateb i'r Ymgynghoriad a'r Cyhoeddusrwydd**

| Ymgynhorai | Ymateb |
|---|---|
| Swyddog Hawliau Tramwy Cyhoeddus/ Public Rights of Way Officer | Dim gwrthwynebiad |
| Cynghorydd Vaughan Hughes | Dim ymateb |
| Cynghorydd Ieuan Williams | Dim ymateb |
| Cynghorydd Margaret Murley Roberts | Dim ymateb |
| Cyngor Cymuned Moelfre Community Council | Dim ymateb |

Mae'r cynnig wedi'i hysbysebu trwy osod rhybudd ar y safle ac ysgrifennwyd at ddeiliaid eiddo cyfagos. Rhoddwyd rhybudd hefyd yn y papur newydd lleol. Y dyddiad diwethaf ar gyfer derbyn unrhyw sylw oedd 17/02/2021. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, roedd un ddeiseb yn gwrthwynebu ac arni 5 llofnod wedi'i derbyn oherwydd pryderon am wyro'r llwybr troed a fyddai'n arwain at dresmasu ar eu heiddo. Ymgynghorwyd â'r swyddog llwybrau troed a nododd fod y gwyriad eisoes wedi'i gymeradwyo a chadarnhaodd fod y gwyriad yn fater ar wahân ac nid yn fater i'w ystyried yn y cais cynllunio hwn.

**Hanes Cynllunio Perthnasol**

**Prif Ystyriaethau Cynllunio**

Mae'r annedd yn gymharol ynysig ei natur a bydd y pellter 64 metr i'r eiddo cyfagos yn sicrhau nad yw'r cynllun yn gormesu nac yn achosi colli golau i raddau a fyddai'n cyfiawnhau ei wrthod. Nid ystyrir bod ffenestri'r cynllun yn edrych drosodd yn ormodol o ran eu natur ac ni fyddent yn gwaethygu unrhyw edrych drosodd sydd eisoes yn digwydd i raddau a fyddai'n cyfiawnhau gwrthod. y cais. Oherwydd yr uchod, ystyrir bod y cynnig yn cydymffurfio â pholisi PCYFF 2 o Gynllun Datblygu Lleol ar y cyd Ynys Môn a Gwynedd sy'n nodi y bydd cynigion yn cael eu cefnogi ar yr amod nad ydynt ar draul mwynderau'r eiddo cyfagos.

Bydd deunyddiau'r cynllun yn adlewyrchu'r annedd bresennol felly cedwir at gymeriad yr annedd a'r ardal . Bydd yr estyniadau yng nghefn ac ar ochr yr eiddo ac ni fydd y rhannau sy'n weladwy o'r drychiad blaen yn edrych yn anghydnaws â ffurf yr annedd bresennol neu'r annedd arall yn yr ardal. Felly, ystyrir bod y cais yn cydymffurfio â Pholisi PCYFF 3.

Fel rhan o'r datblygiad y safle mae aliniad llwybr cyhoeddus yn cael ei dargyfeirio. Tydi hwn ddim yn ffurfio rhan o'r cais cynllunio ac mae wedi cael ei caniatau ar wahan gan yr adwdurdod Briffyrf.

**Casgliad**

Ystyrir bod y cynnig yn cydymffurfio â nodau ac amcanion polisïau'r cynllun datblygu lleol ar y cyd ac nid oes unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill a fyddai'n awgrymu cyfiawnhau gwrthod y cais

**Argymhelliad**

**(01) Rhaid cychwyn ar y datblygiad yr ymwna'r caniatâd hwn a fo o fewn pum mlynedd i ddyddiad y caniatâd hwn.**

Rheswm: I gydymffurfio gyda gofynion Adran 91(1) o'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (fel y diwygiwyd).

**(02) Bydd gwaith ar y datblygiad a ganiateir yma yn cael ei gyflawni mewn modd a fydd yn cydymffurfio'n llwyr â'r manylion a ddangosir ar y cynlluniau a nodir isod, manylion sydd wedi eu cynnwys mewn unrhyw ddogfennau a gyflwynwyd gyda chais o'r fath oni bai eu bod wedi eu cynnwys yn narpariaethau'r amodau sy'n rhan o'r caniatâd cynllunio hwn.**

- **Cynlluniau Lleoliad ac Bloc Presennol a Bwriedig / OBS-2020-092 GA001**
- **Cynllun Llawr Ddear Bwriedig / OBS-2020-092 GA005**
- **Cynlluniau Llawr Cyntaf Bwriedig / OBS-2020-092 GA006**
- **Edrychiadau Bwriedig / OBS-2020-092 GA007**
- **Trawstoriadau Bwriedig A-A ac B-B / OBS-2020-092 GA008**
- **Dargyfeiriad Llwybr Cyhoeddus/ OBS-2020-092 GA009**

Rheswm: Sicrhau bod y datblygiad yn cael ei weithredu'n unol â'r manylion a gymeradwywyd.

Y cynllun datblygu sy'n berthnasol i Ynys Môn yw'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn (2017). Roedd y polisïau canlynol yn berthnasol i'r sylw a roddwyd i'r cais hwn: PCYFF 2, PCYFF 3.

Hefyd, rhoi awdurdod i'r Pennaeth Gwasanaeth ychwanegu at, dileu neu newid/amrywio unrhyw amod(au) cyn rhoi'r caniatâd cynllunio, cyn belled ag na fydd y newidiadau yn effeithio ar natur neu yn mynd i galon y caniatâd/datblygiad.

This page is intentionally left blank


**Pwyllgor Cynllunio:** 07/04/2021 **12.1**

**Rhif y Cais: FPL/2021/10**

**Ymgeisydd:** Paul & Elen Pritchard

**Bwriad:** Cais ôl weithredol ar gyfer codi modurdy ar tir ger

**Lleoliad:** Bron Castell, Llanfairynghornwy




**Adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd (Owain Hughes)**

**Argymhelliad:** Caniatáu

**Rheswm dros Adrodd i'r Pwyllgor**

Mae'r cais wedi ei alw i fewn gan y Cynghorydd Llinos Medi Huws oherwydd pryderon gan y cymunedol lleol ynglyn a maint, lleoliad a'r dyluniad y modurdy.

**Y Cynnig a'r Safle**

Mae'r cais a gyflwynir yn gais cynllunio ôl-weithredol ar gyfer cadw'r modurdy sydd ddim wedi ei adeiladu godwyd yn unol â'r cais cynllunio cymeradwy 18C225B.

Mae y safle ym mhentrefan Llanfairynghornwy y tu ôl i annedd Bron Castell. Mae'r annedd a gymeradwywyd o dan gais cynllunio 18C225B wrthi'n cael ei hadeiladu. Mae'r safle hefyd o fewn yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol.

**Mater(ion) Allweddol**

Y materion cynllunio allweddol yw; a yw'r datblygiad arfaethedig yn effeithio ar yr mwynderau cyfagos ac a yw'r datblygiad yn effeithio ar yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol.

**Polisïau**

**Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd**

Polisi PCYFF 3: Dylunio a Siapio Lle
Polisi AMG 1: Cynlluniau Rheolaeth Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol
Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio (2016)
Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 11)
Cyfarwyddydd Cynllunio Atodol: Canllawiau Dylunio yr Amgylchedd Adeiledig Gwledig a Threfol (2008)

**Ymateb i'r Ymgynghoriad a'r Cyhoeddusrwydd**

| Ymgynhorai | Ymateb |
|---|---|
| Cynghorydd John Griffith | Dim ymateb |
| Cynghorydd Kenneth P. Hughes | Dim ymateb |
| Cynghorydd Llinos Medi Huws | Cyfeiriwyd i Bwyllgor |
| Cyngor Cymuned Cylch-y-Garn Community Council | Gwrthwynebu |

Rhoddwyd cyhoeddusrwydd i'r cais trwy osod rhybudd ger y safle, ysgrifennu at berchnogion eiddo cyfagos a rhoi hysbyseb yn y papur newydd lleol oherwydd bod llwybr cyhoeddus yn y cyffiniau. Y dyddiad diwethaf ar gyfer derbyn sylwadau oedd y 08/07/2020. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, roedd yr adran wedi derbyn nifer o sylwadau gan drigolion cyfagos. Tynnodd un o'r rhain ei wrthwynebiadau yn ôl yn ddiweddarach.

Eu prif bryderon oedd:

- Maint y modurdy rhy fawr
- Gor-edrych trwy ffenestr
- Colli golau haul
- Effaith swn
- Edrych allan o cymeriad
- Effaith preifatrwydd Bron Castell.

Bydd y pryderon uchod yn cael sylw ym mhrif gorff yr adroddiad.

**Hanes Cynllunio Perthnasol**

18C225 - Full Planning - Cais llawn i godi annedd newydd, chreu mynedfa ynghyd a gosod paced trin carthffosiaeth ar dir ger / Full application for the erection of a dwelling, the creation of an access together with the installation of a package treatment plant on land adjacent t - Bron Castell, Llanfairynghornwy

18C225A/SCR - Screening Opinion - Cais barn sgrinio i godi annedd newydd, chreu mynedfa ynghyd a gosod paced trin carthffosiaeth ar dir ger / Screening opinion application for the erection of a dwelling, the creation of an access together with the installation of a package treatment plan - Bron Castell, Llanfairynghornwy

18C225B - Full Planning - Cais llawn i godi annedd newydd, chreu mynedfa ynghyd a gosod paced trin carthffosiaeth ar dir ger / Full application for the erection of a dwelling, the creation of an access together with the installation of a package treatment plant on land adjacent t - Bron Castell, Llanfairynghornwy

18C225C/SCR - Screening Opinion - Barn sgrinio ar gyfer codi annedd ar dir ger / Screening opinion for the erection of a dwelling on land adjacent to - Bron Castell, Llanfairynghornwy

18C225D/DIS - Discharge of Conditions - Cais i ryddhau amod (02) (Cynllun Rheoli Traffig) o ganiatâd cynllunio 18C225B ar dir ger / Application to discharge condition (02) (Traffic Management Scheme) of planning permission 18C225B on land adjacent to - Bron Castell, Llanfairynghornwy

**Prif Ystyriaethau Cynllunio**

Cais yw hwn i gadw garej sy'n cael ei hadeiladu ar hyn o bryd ar y tir y tu ôl i Bron Castell, Llanfairynghornwy.

Caniatawyd lleoliad gwreiddiol y garej o dan gyfeirnod cynllunio 18C225B ar 04/05/2017.

O dan y caniatâd cynllunio uchod, roedd maint allanol y garej yn 6.4 metr wrth 6.4 metr gydag uchder i'r grib o 5 metr. Mae'r pellter o'r garej i ffin Bron Castell, sef yr eiddo preswyl agosaf, yn 1.5 metr.

Cyflwynwyd y cais o ganlyniad i ymyrraeth yr Adain Orfodaeth ar ôl derbyn cwyn mewn perthynas â newid lleoliad y garej. Yn dilyn ymchwiliad, nodwyd bod lleoliad y garej wedi'i newid fel ei bod 10 metr ymhellach yn ôl o'r lleoliad a gymeradwywyd. Ar ben hynny, roedd maint y garej hefyd wedi newid fel ei bod yn mesur 6.8 metr wrth 6.8 metr o fewn y cwrtil. Mae'r garej nawr wedi'i lleoli 10 metr yn ôl o'r lleoliad a gymeradwywyd. Yn ogystal â hyn, mae maint y garej bellach yn wahanol.

Mae'r garej sy'n cael ei hadeiladu bellach yn mesur 6.8 metr wrth 6.8 metr (sy'n gynnydd o 0.4m o ran ei hyd a'i lled ) gyda chynnydd o 0.9m yn uchder y grib i 5.9 metr. Mae'r pellter i ffin Bron Castell hefyd wedi cynyddu i 1.8 metr, sef 0.3m yn bellach i ffwrdd.

O ran ei golwg, mae'r garej hefyd bellach yn cynnwys ffenestr llawr gwaelod ar yr ochr ogleddol, ffenestr llawr 1af ar y drychiad blaen (ochr orllewinol) a dwy ffenestr to yn wynebwedd ddeheuol y to.
Wrth ystyried y cynnig hwn, dylid pwysleisio bod yr egwyddor o godi garej breifat ar y safle wedi'i chymeradwyo eisoes fel rhan o gais cynllunio 18C225B. Mae'r ymgeiswyr wedi cadarnhau bod angen newid y lleoliad am resymau ymarferol o ystyried yr anawsterau a achosir gan lefelau daear ar y safle ac i ddarparu man troi, symud a pharcio gwell o fewn cwrtil yr eiddo.
Mewn ymateb i'r gwrthwynebiadau a godwyd o ran maint, cydnabyddir bod y garej 0.4 metr yn lletach ac yn hirach a bod cynnydd o 0.9m yn uchder y grib. Fodd bynnag, nid ystyrir bod graddfa'r newidiadau hyn yn cyfiawnhau gwrthod y cais.

Fel y nodwyd yn rhannau blaenorol yr adroddiad hwn, mae'r egwyddor o godi garej eisoes wedi'i chaniatáu. Nid ystyrir y bydd y ffenestri newydd yn cael effaith andwyol o ran edrych drosodd. Bydd y ffenestr ar yr ochr ogleddol yn cael ei gosod gyda gwydr aneglur. Yn ogystal, rhoddir amod ar unrhyw ganiatâd a roddir i sicrhau na fydd y ffenestr hefyd yn un sy’n agor. Bydd y ffenestr do ar yr ochr ddeheuol yn edrych dros ardd yr ymgeiswyr. Bydd y ffenestr newydd ar yr ochr orllewinol yn edrych allan ar ddreif yr ymgeisydd a'r man troi cerbydau gyda golygfeydd lletraws tuag at Bron Castell.

Cydnabyddir bod lleoliad presennol y garej wedi'i osod yn ôl 10 metr ar lain uchel o dir sy'n gorwedd yn gyfochrog â Bron Castell ac ar safle uwch. Fodd bynnag, nid ystyrir y bydd y garej arfaethedig yn cysgodi Bron Castell na’i gwrtil i'r fath raddau a fyddai'n cyfiawnhau gwrthod. Cydnabyddir y bydd rhan fwyaf deheuol yr ardd yn Bron Castell a ddefnyddir ar hyn o bryd fel llecyn caled yn cael ei chysgodi rhywfaint yn ystod y dydd, ond nid yw hyn ynddo'i hun yn rheswm digonol i wrthod y cais. Ni fydd y rhan fwyaf o'r ardd sy'n gwasanaethu Bron Castell sy'n cynnwys ei lawnt ar yr ochr ogleddol yn cael ei heffeithio.

Nid ystyrir bod y cynnig yn edrych allan o gymeriad. Mae'r cynnig yn gyffredinol yn adlewyrchu'r hyn sydd eisoes wedi cael ei gymeradwyo ar gyfer y safle. Cydnabyddir y gellir gweld y garej o wahanol fannau oherwydd y newid yn ei lleoliad sydd ar lefel sy'n uwch na'r hyn a gymeradwywyd yn wreiddiol. Fodd bynnag, mae hyn wedi'i osod yn erbyn cefndir y brif annedd sy'n lliniaru'r effaith weledol.

Ar ôl pwyso a mesur, ystyrir bod y datblygiad arfaethedig yn cydymffurfio â'r polisïau cynllunio perthnasol. Nid ystyrir y bydd y datblygiad arfaethedig yn cael effaith andwyol ar gymeriad y dirwedd ddynodedig nac ar fwynderau eiddo cyfagos i'r fath raddau a fyddai'n cyfiawnhau gwrthod. Cydnabyddir y codwyd gwrthwynebiadau i'r cynnig. Er bod y gwrthwynebiadau hyn wedi cael eu hystyried yn fanwl fel rhan o asesiad yr Awdurdod o'r materion, nid ystyrir bod y gwrthwynebiadau a godwyd yn rhesymau digonol ynddynt eu hunain i gyfiawnhau gwrthod y cais. Ystyrir y gellir gosod amodau addas ar y datblygiad i sicrhau ei fod yn dderbyniol yn nhermau cynllunio defnydd tir.

**Casgliad**

Ystyrir bod y datblygiad arfaethedig yn dderbyniol i'r Awdurdod Cynllunio Lleol.

**Argymhelliad**

**(01) Bydd gwaith ar y datblygiad a ganiateir yma yn cael ei gyflawni mewn modd a fydd yn cydymffurfio'n llwyr â'r manylion a ddangosir ar y cynlluniau a nodir isod, manylion sydd wedi eu cynnwys mewn unrhyw ddogfennau a gyflwynwyd gyda chais o'r fath oni bai eu bod wedi eu cynnwys yn narpariaethau'r amodau sy'n rhan o'r caniatâd cynllunio hwn.**

Rheswm: Sicrhau bod y datblygiad yn cael ei weithredu'n unol â'r manylion a gymeradwywyd.

**(02) Bydd y modurdy o fewn y cwrtil yn cael eu defnyddio a hynny'n gysylltiedig â'r mwynhad o'r annedd, ac ni chaiff ei ddefnyddio ar gyfer masnach na busnes.**

Rheswm: Er mwyn sicrhau nad oes unrhyw ddefnydd amhriodol yn digwydd yn yr ardal leol.

**(03) Bydd y ffenestr a amlygir mewn glas ar y cynllun sydd ynghlwm wrth y caniatâd hwn (Cynllun Modurdy Arfaethedi) o wydr aneglur a ddim yn agor ac ni fydd gwydr ac eithrio gwydr aneglur yn cael ei ddefnyddio i wydro neu ail-wydro ffenestri.**

Rheswm: Er budd amwynder.

Y cynllun datblygu sy'n berthnasol i Ynys Môn yw'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn (2017). Roedd y polisïau canlynol yn berthnasol i'r sylw a roddwyd i'r cais hwn: PCYFF 3, AMG 1

Hefyd, rhoi awdurdod i'r Pennaeth Gwasanaeth ychwanegu at, dileu neu newid/amrywio unrhyw amod(au) cyn rhoi'r caniatâd cynllunio, cyn belled ag  na fydd y newidiadau yn effeithio ar natur neu yn mynd i galon y caniatâd/datblygiad.

**Pwyllgor Cynllunio:** 07/04/2021 **12.2**

**Rhif y Cais: MAO/2021/1**

**Ymgeisydd:** Grwp Llandrillio-Menai

**Bwriad:** Mân newidiadau i gynllun sydd wedi ei ganiatáu yn flaenorol o dan caniatâd cynllunio 34C304K/1/EIA/ECON er mwyn galluogi cychwyn gwaith ar blotiau arwahan yn Safle B ar dir yn

**Lleoliad:** Coleg Menai, Llangefni




**Adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd (Iwan Jones)**

**Argymhelliad:** Caniatáu

**Rheswm dros Adrodd i'r Pwyllgor**

Roedd Cais 34C304K/1/ EIA/ ECON yn destun Asesiad Effaith Amgylcheddol ac fe'i penderfynwyd gan y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion

**Y Cynnig a'r Safle**

Cyflwynir y cais o dan adran 96A sy'n ceisio diwygiadau ansylweddol i rai amodau mewn perthynas â'r caniatâd amlinellol er mwyn caniatáu bwrw ymlaen gyda gwaith ar rai plotiau ar adegau gwahanol i blotiau eraill.

Roedd y caniatâd amlinellol a roddwyd o dan ganiatâd cynllunio 34C304K/1/ EIA/ ECON yn gais cynllunio hybrid. Roedd agwedd amlinellol y caniatâd yn cynnwys 153 o anheddau, gwesty a chyfleuster bwyd a diod ynghyd â pharcio a gwaith cysylltiedig. Dynodwyd y rhan honno o'r safle y rhoddwyd caniatâd amlinellol iddi fel 'Safle B' ac roedd yn cynnwys pum plot ar wahân fel rhan o'r uwchgynllun.

**Mater(ion) Allweddol**

P'un a ellir ystyried bod y diwygiadau arfaethedig i'r amodau yn fân-ddiwygiadau ansylweddol.

**Polisïau**

**Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd**

Polisi Strategol PS 6: Lliniaru Effeithiau Newid Hinsawdd ac Addasu Iddynt
Polisi Strategol PS 5: Datblygu Cynaliadwy
Polisi Strategol PS 4: Trafnidiaeth Gynaliadwy, Datblygiad a Hygyrchedd
Polisi Strategol PS 2: Isadeiledd a Chyfraniadau gan Ddatblygwyr
Polisi Strategol PS 1: Yr Iaith Gymraeg a'r Diwylliant Cymreig
Polisi ISA 1: Darpariaeth Isadeiledd
Polisi ISA 5: Darparu Llecynnau Agored Mewn Datblygiadau Tai Newydd
Polisi TRA 2: Safonau Parcio
Polisi TRA 4 : Rheoli Ardrawiadau Cludiant
Polisi PCYFF 2: Meini Prawf Datblygu
Polisi PCYFF 4: Dylunio a Thirweddu
Polisi PCYFF 3: Dylunio a Siapio Lle
Polisi PCYFF 1: Ffiniau Datblygu
Polisi PCYFF 6: Cadwraeth Dŵr
Polisi PCYFF 5: Rheoli Carbon
Polisi TAI 1: Tai yn y Ganolfan Isranbarthol a'r Canolfannau Gwasanaeth Trefol
Polisi TAI 8: Cymysgedd Briodol o Dai
Polisi TAI 15: Trothwy Tai Fforddiadwy a'u Dosbarthiad

**Ymateb i'r Ymgynghoriad a'r Cyhoeddusrwydd**

| Ymgynhorai | Ymateb |
|---|---|
| Cyfoeth Naturiol Cymru / Natural Resources Wales | Pryderon am gysylltedd ystlumod |
| YGC (Ymgynhoriaeth Gwynedd Consultancy) | Dim Ymateb |
| Ymgynghorydd Ecolegol ac Amgylcheddol / Ecological and Environmental Advisor | Dim Gwrthwynebiad |
